# Cynllun Gwaith arfaethedig Ofcom 2026/27

Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd ar 05 Rhagfyr 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 05 Chwefror 2026

I gael rhagor o wybodaeth am y ddogfen hon, ewch i ofcom.org.uk

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ..... 3
2. Ein blaenoriaethau ar gyfer 2026/27 ..... 6
3. Cefnogi ein Cenhadaeth ..... 23


## Atodiad


A1. Yr hyn rydym yn ei wneud ..... 29
A2. Atodiad Prosiectau ..... 32
A3. Asesu Effaith ..... 45
A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ..... 47
A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom ..... 50
A6. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad ..... 51
A7. Cwestiynau'r ymgynghoriad ..... 52

# 1. Trosolwg

1.1 Mae Ofcom yn parhau i ymateb i amgylchedd sy'n cael ei ddiffinio gan arloesedd technolegol cyflym ar draws ein sectorau ym meysydd telegyfathrebiadau, darlledu, gwasanaethau post a llwyfannau ar-lein, ac ar gyfer amrywiaeth eang o ddefnyddwyr sbectrwm.

1.2 Gall newidiadau mewn technoleg, marchnadoedd ac ymddygiad defnyddwyr greu cyfleoedd newydd yn ogystal â heriau. Rhan bwysig o'n rôl yw rhag-weld y newidiadau hyn i gyfathrebiadau er mwyn i ni allu hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, gan gynnwys drwy alluogi arloesedd cyfrifol. Wrth edrych i'r dyfodol, mae hyn yn golygu paratoi ar gyfer mathau newydd o niwed ar-lein yn sgil cynnwys sydd wedi'i greu gan ddeallusrwydd artiffisial (AI) a chan ddefnyddwyr; addasu i newidiadau parhaus o ran sut mae cynulleidfaoedd yn darganfod ac yn defnyddio cynnwys fideo a sain; cefnogi'r gwaith o gyflwyno 5G ac ystyried hefyd sut gallai 6G edrych; archwilio sut gallai cyfathrebiadau lloeren drawsnewid telegyfathrebiadau; neu gryfhau gwydnwch rhwydweithiau sy'n datblygu i fod yn fwyfwy rhithiol. Rhaid inni ymateb i'r datblygiadau hyn mewn ffordd sy'n sicrhau canlyniadau da i bobl a busnesau heddiw, yn ogystal â buddsoddiad yng ngwasanaethau yfory.

1.3 Mae Ofcom yn credu y gall rheoleiddio da feithrin arloesedd a buddsoddiad, gan gefnogi twf economaidd yn unol ag agenda twf y Llywodraeth. Rhan o gefnogi arloesedd yw sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio'n dal yn addas i'r diben a chydnabod pan nad yw rheolau'n fuddiol mwyach i ddefnyddwyr neu fusnesau Prydain.

1.4 Mae'r Cynllun Gwaith eleni yn nodi rhaglen waith Ofcom i rag-weld ac ymateb i'r newidiadau hyn. Gan ddefnyddio cyfeiriad strategol ein Cynllun Tair Blynedd 2025/26-2027/28 i'n harwain, rydym yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau hirdymor ond gan gadw'r hyblygrwydd i ymateb i risgiau a chyfleoedd wrth iddynt godi. Drwy gydol hyn, mae ein nod cyffredinol yn dal i fod yr un fath, sef sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

1.5 Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Llywodraeth ei Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer diogelwch ar-lein. Byddwn yn parhau i roi sylw i'r Datganiad hwn wrth i ni wneud ein gwaith i wneud bywydau holl ddefnyddwyr y DU yn fwy diogel ar-lein.[1] Fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, byddwn yn darparu adolygiad blynyddol o'r hyn rydym wedi'i wneud mewn ymateb i'r Datganiad Blaenoriaethau Strategol yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ofcom.

1.6 Rydym yn ymgysylltu â'r Llywodraeth i ddeall ei blaenoriaethau wrth iddi baratoi ei Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Telegyfathrebiadau, rheoli Sbectrwm Radio a Gwasanaethau Post.

## Ein sectorau

1.7 Mae rhwydweithiau diogel, dibynadwy, o ansawdd uchel yn sail i bob cyfathrebiad, ac maent yn hanfodol ar gyfer twf economaidd ehangach. Eleni byddwn yn rhoi newidiadau ar

[1] Fe wnaethom ysgrifennu at y Llywodraeth ar 25 Gorffennaf 2025 i egluro sut bydd Ofcom yn ystyried y Datganiad Blaenoriaethau Strategol.

waith mewn rhai meysydd ac yn symud tuag at ddull gweithredu sy'n nes at 'fusnes fel arfer' mewn meysydd eraill wrth i ambell drefn symud i gam sefydledig.

1.8 Mae arnom eisiau marchnad telegyfathrebiadau lle gall buddsoddiad, arloesedd a chystadleuaeth barhau i ffynnu, lle mae defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wasanaethau diogel a dibynadwy a lle maent yn cael eu trin yn deg. Yn ein gwaith ar rwydweithiau, byddwn yn sicrhau bod rhwydweithiau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol a bod cystadleuaeth briodol rhyngddynt. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r fframwaith rheoleiddio newydd o Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026. Byddwn hefyd yn parhau i rymuso defnyddwyr i ddewis y rhwydwaith gorau ar eu cyfer nhw, gan gynnwys drwy ein hadnodd newydd Mapio Eich Ffôn Symudol a gwaith ehangach i hyrwyddo cysylltedd symudol di-dor a dibynadwy. Byddwn yn parhau i fonitro'r diwygio ar y gwasanaeth post i sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwasanaeth fforddiadwy ac effeithlon sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

1.9 Mae'r cyd-destun y mae'r cyfryngau'n gweithio ynddo yn parhau i newid a datblygu, ac rydym wedi cymryd camau yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu ein gwaith rheoleiddio i ateb yr her hon. Fis Gorffennaf diwethaf, fe wnaethom gyhoeddi ein hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus a byddwn yn dechrau monitro cynnydd tuag at y chwe chanlyniad allweddol y gwnaethom eu hamlinellu er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd y DU yn parhau i elwa o ecosystem cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n gadarn ac amrywiol. Byddwn hefyd yn parhau i roi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith, gan helpu sectorau i addasu i'n trefn reoleiddio newydd a dechrau monitro ei heffaith ar yr un pryd.

1.10 Ar ôl cyfnod dwys o roi'r cyfan ar waith, daeth elfennau allweddol o'r drefn diogelwch ar-lein i rym yn 2025. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i gyflwyno elfennau terfynol y drefn, gan gynnwys y dyletswyddau ychwanegol ar wasanaethau wedi'u categoreiddio. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sbarduno newid ac yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau symud o gymryd camau cydymffurfio cychwynnol i sicrhau gwelliannau ystyrlon a mesuradwy i'w defnyddwyr.

1.11 Mae sbectrwm yn dal yn rhan ganolog o ddatgloi arloesedd a thwf yn y DU, nid dim ond yn y sectorau y mae Ofcom yn eu rheoleiddio, ond ar gyfer busnesau ar draws yr economi. Mae hefyd yn parhau i fod yn alluogwr allweddol i gysylltu'r DU gyfan. Byddwn yn parhau i gefnogi'r arloesi hwn ar draws sectorau, ac ar yr un pryd yn rheoli'r galw cynyddol am sbectrwm gan amrywiaeth gynyddol o dechnolegau.

## Y flwyddyn i ddod

1.12 Mae ein Cynllun Gwaith yn dal i ganolbwyntio ar ein pedair blaenoriaeth o'n Cynllun Tair Blynedd ar gyfer 2025/26-2027/28. Dyma'r blaenoriaethau polisi hyn: **'Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt'**, **'Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi'**, **'Rydym ni'n byw bywyd mwy diogel ar-lein'** a **'Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU'**.

Mae ein gwaith i gefnogi darparu **Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt** yn 2026/27 yn cynnwys:

- Hyrwyddo cysylltedd symudol di-dor a dibynadwy.
- Ymgynghori ar fforddiadwyedd a phrisiau gwasanaethau post.

- Gweithredu'r fframwaith rheoleiddio yn ein Hadolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026.
- Cyhoeddi rheolau a chanllawiau newydd i fynd i'r afael â negeseuon symudol sgam.
- Sicrhau bod y newid o ddefnyddio hen wasanaethau yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n ystyriol o ddefnyddwyr.
- Adolygu effaith y newidiadau ar ein rheolau ar godi prisiau o fewn contractau.
- Parhau â'n gwaith ar ddiogelwch a gwydnwch rhwydweithiau'r DU.

Mae ein gwaith i gefnogi darparu **Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi** yn 2026/27 yn cynnwys:

- Cwblhau rhoi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith a symud i reoleiddio o dan y dyletswyddau newydd hyn.
- Ein gwaith ar newyddion a pha mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau ar-lein.
- Ein hadolygiad o reoleiddio darlledu.
- Parhau â'n gwaith i sicrhau safonau a diogelu cynulleidfaoedd rhag niwed.

Mae ein gwaith i gefnogi darparu **Rydym ni'n byw bywyd mwy diogel ar-lein** yn 2026/27 yn cynnwys:

- Cyhoeddi ein cofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio ac ymgynghori ar ddyletswyddau ychwanegol a fydd yn berthnasol iddynt.
- Sbarduno cydymffurfiaeth â'n Codau Ymarfer a chymryd camau gorfodi pan fo angen, yn unol â'r meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd yn 'Diogelwch Ar-lein yn 2025'.
- Gwreiddio'r drefn diogelwch ar-lein. Gwerthuso effaith ein gwaith.
- Parhau â'n gwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.

Mae ein gwaith i gefnogi darparu **Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU** yn 2026/27 yn cynnwys:

- Cefnogi'r galw cynyddol am wasanaethau.
- Ymgysylltu rhyngwladol ynghylch sbectrwm.
- Sbectrwm fel galluogwr arloesi.

# 2. Ein blaenoriaethau ar gyfer 2026/27

2.1 Ein cenhadaeth gyffredinol yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, rydym yn gwneud hyn drwy gyfrwng ein dyletswyddau ar draws rhwydweithiau telegyfathrebiadau a phost, cyfryngau, diogelwch ar-lein, a sbectrwm. Mae ein dyletswyddau wedi cael eu pennu drwy Ddeddfau Seneddol a deddfwriaeth arall (mae crynodeb ar gael yn Atodiad 1). Yn bennaf, rydym yn gweithio i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr o ran cyfathrebiadau, gan hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.

2.2 Rydym yn rheoleiddiwr statudol annibynnol ac, o'r herwydd, mae ein Cynllun Gwaith blynyddol yn seiliedig ar y dyletswyddau hyn. Mae hyn yn cynnwys Datganiad Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth y DU a gofynion statudol, fel y Ddyletswydd Twf, ochr yn ochr â'r dystiolaeth a gasglwyd drwy ymchwil, dadansoddi, gwybodaeth, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## Ein blaenoriaethau

2.3 Mae'r adran ganlynol yn rhoi manylion ein pedair blaenoriaeth, a sut bydd ein prosiectau a'n rhaglenni yn ystod 2026/27 yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni. Mae rhestr gynhwysfawr o'r gwaith prosiect cysylltiedig yn ein 'Hatodiad Prosiectau' (Atodiad 2), sy'n cyfeirio at gyhoeddiadau sy'n sicrhau bod y data rydym ni'n ei gasglu ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn i randdeiliaid y diwydiant a defnyddwyr allu elwa ohono.

## Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt

Mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud â gweithio tuag at Deyrnas Unedig sydd â gwell cysylltiadau er mwyn i bobl a busnesau allu cymryd rhan mewn cymdeithas ddigidol ac elwa ohoni. Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi twf drwy: fynediad at gysylltiadau telegyfathrebiadau sefydlog sy'n gallu trosglwyddo data ar lefel gigadidau, hyrwyddo gwelliannau mewn cysylltedd symudol, a gwasanaethau post gwydn a chynaliadwy. Wrth wneud hynny, rydym yn sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr ac yn rhoi dewis a thegwch. Mae'r flaenoriaeth hefyd yn cynnwys gwella diogelwch a gwydnwch rhwydweithiau'r DU er mwyn iddynt allu bodloni gofynion datblygol dinasyddion a busnesau fel ei gilydd.

2.4 Wrth gyflawni ein gwaith i ddarparu 'Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt', rydym yn ceisio sicrhau'r canlyniadau canlynol i ddefnyddwyr:

- Buddsoddi mewn rhwydweithiau a gwasanaethau o ansawdd uchel sydd ar gael pan fo eu hangen.

- Rhwydweithiau dibynadwy a diogel y gall pobl ddibynnu arnynt.
- Marchnadoedd effeithlon a chynaliadwy lle mae cystadleuaeth yn rhoi dewis, gwerth a gwasanaethau o ansawdd uchel.
- Defnyddwyr yn cael eu trin yn deg ar bob cam o daith y cwsmer, beth bynnag fo'u hamgylchiadau.
- Gwasanaeth post cynaliadwy a fforddiadwy sydd ar gael ledled y DU ac sy'n diwallu anghenion datblygol cwsmeriaid.

2.5 Mae cyfathrebiadau digidol a gwasanaethau post yn hanfodol i fywyd bob dydd yn y DU. Mae arloesi digidol a newid technolegol parhaus yn golygu y bydd gwasanaethau cyfathrebu yn parhau i chwarae rhan fwyfwy canolog ym mywydau pobl ac yn yr economi. Bydd ein gwaith yn sicrhau bod gwasanaethau sy'n hanfodol i'n bywydau, nawr neu yn y dyfodol, ar gael ar yr adegau ac yn y mannau y mae eu hangen ar bobl.

2.6 Mae arnom eisiau i'n gwaith sbarduno newid sylweddol yn ansawdd y profiad ar draws gwasanaethau cyfathrebiadau a phost wrth iddynt ddatblygu. Bydd hyn yn galluogi pobl a busnesau i ddefnyddio cymwysiadau newydd ac arloesol, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu pweru gan ddeallusrwydd artiffisial, yn ddibynadwy. Byddwn hefyd yn sicrhau bod cystadleuaeth a buddsoddiad parhaus yn arwain at fanteision i bob defnyddiwr, gan gynnwys rhwydweithiau sydd ar gael yn ehangach a thechnolegau newydd a gwell. Mae ein gwaith hefyd yn sicrhau bod rhwydweithiau a gwasanaethau'n seiberddiogel, yn wydn ac yn gallu adfer yn gyflym ar ôl unrhyw darfu.




2.7 Dyma ein prosiectau allweddol dros y flwyddyn nesaf i gefnogi blaenoriaeth 'Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt':

- **Cysylltedd Symudol:** Byddwn yn parhau â'n rhaglen waith i hyrwyddo gwelliannau mewn cysylltedd symudol. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau pellach i Mapio Eich Ffôn Symudol, i helpu cwsmeriaid i ddewis y rhwydwaith gorau ar eu cyfer nhw. Ar ben hynny, rydym yn bwriadu gweithio gyda'r Llywodraeth, awdurdodau lleol a'r diwydiant i helpu i wella cysylltedd symudol mewn ardaloedd lle na fydd y farchnad yn sicrhau canlyniadau da yn rhwydd.

- **Diogelwch y Seilwaith Telegyfathrebiadau a’r Seilwaith Digidol:** Byddwn yn datblygu ac yn hyrwyddo rhoi safonau gwydnwch gweithredol a thechnegol profedig ar waith yn gyson, a fydd yn cynnwys diweddaru ein Canllawiau Gweithdrefnol Telegyfathrebiadau. O ran gwydnwch pŵer, byddwn yn parhau i weithio gyda gweithredwyr symudol, cynrychiolwyr o’r llywodraeth a’r sector ynni i benderfynu a oes angen mesurau ychwanegol ar gyfer y rhwydwaith mynediad radio symudol. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i baratoi ar gyfer dyletswyddau newydd gan gynnwys y Bil Seiberddiogelwch a Seiberwydnwch, gan ymestyn rôl adrodd Ofcom o dan y Rheoliadau Rhwydweithiau a Systemau Gwybodaeth i gynnwys canolfannau data.
- **Fforddiadwyedd a phrisiau gwasanaethau post y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO):** Byddwn yn cwblhau adolygiad o’n dull gweithredu o ran fforddiadwyedd a phrisiau gwasanaethau post, cyn i’r cap diogelu presennol ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ddod i ben ym mis Mawrth 2027. Ein nod yw cyhoeddi ymgynghoriad ym mis Mawrth 2026 a chyhoeddi ein penderfyniad yn Ch3 2026/27.

2.8 Mae ein Cynllun Gwaith hefyd yn cynnwys rhaglenni parhaus sy’n cefnogi ein gwaith yn y maes hwn:

- **Rhoi’r Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau ar Waith:** Mae'r Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau yn sicrhau bod seilwaith band eang y DU yn addas ar gyfer y dyfodol ac mae’n ceisio creu’r amgylchedd cywir i hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn band eang sy'n gallu trosglwyddo data ar gyfradd gigadidau, er mwyn darparu gwasanaethau gwell a mwy o ddewis i ddefnyddwyr. Mae’r fframwaith rheoleiddio presennol a osodwyd gennym yn 2021 yn dod i ben ym mis Mawrth 2026. Ym mis Mawrth 2026 byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad ar y fframwaith rheoleiddio newydd, a fydd yn amlinellu’r rheoliadau a fydd yn berthnasol rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2031. Bydd hyn yn cynnwys y marchnadoedd ar gyfer mynediad at seilwaith ffisegol, mynediad lleol cyfanwerthol, mynediad at linellau ar brydles a chysylltedd rhwng cyfnewidfeydd. Yn 2026/27, byddwn yn monitro'r broses weithredu ac yn penderfynu ar fanylion ein gwaith rheoleiddio i gefnogi'r broses o roi'r gorau i ddefnyddio copr.
- Fel rhan o'n **Rhaglen Goruchwylio Cystadleuaeth**, byddwn yn monitro cydymffurfiaeth Openreach â'r rheolau a'r gofynion a osodwyd gennym yn Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026, gan gynnwys mewn perthynas â mynediad at seilwaith ffisegol a chynigion masnachol, gan sicrhau bod cystadleuaeth yn digwydd yn deg.
- **Rheoleiddio Telegyfathrebiadau yn Ardal Hull:** Bydd y fframwaith rheoleiddio ar wahân presennol a osodwyd gennym yn 2021 yn dod i ben ym mis Hydref 2026. Bydd ein hadolygiad yn cwmpasu'r marchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog yn ardal Hull. Ym mis Hydref 2026 byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad ar y fframwaith rheoleiddio newydd a fydd yn berthnasol yn ardal Hull ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2026 a mis Hydref 2031.
- **Mynd i’r afael â galwadau a negeseuon testun sgam:** Rydym yn parhau â’n strategaeth i’w gwneud yn anodd i sgamwyr ddefnyddio rhwydweithiau telegyfathrebu'r Deyrnas Unedig i niweidio defnyddwyr. Yn Ch2 2026/27, byddwn yn cyhoeddi datganiad ar fynd i'r afael â negeseuon symudol sgam. Rydym yn ystyried

sut i ddiweddaru ein dull o fynd i'r afael â thwyll a sgamiau ar draws yr holl wasanaethau rydym yn eu rheoleiddio.


- **Deall effaith deallusrwydd artiffisial ym maes telegyfathrebiadau ar ddefnyddwyr:** Yng ngaeaf 2025 byddwn yn cyhoeddi gwahoddiad i gyfrannu ynghylch yr effaith y gallai deallusrwydd artiffisial ei chael ar brofiad cwsmeriaid band eang preswyl a busnes, symudol a theledu drwy dalu. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn yn 2026/27, gan gynnwys cyhoeddiad pellach a fydd yn amlinellu unrhyw gamau nesaf ar gyfer ein gwaith yn y maes hwn.
- **Symud oddi wrth hen wasanaethau:** Mae rheoli’r broses o symud oddi wrth hen wasanaethau fel gwasanaethau ffôn llinell dir rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN) traddodiadol a rhwydweithiau symudol 2G/3G yn allweddol i sicrhau bod pobl yn parhau i elwa o rwydweithiau dibynadwy a mwy effeithiol. Wrth i'r broses o ddiffodd 3G ddod i ben, byddwn yn canolbwyntio ymhellach ar y paratoadau ar gyfer diffodd 2G. Byddwn yn parhau i weithio gyda’r diwydiant a gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod cwsmeriaid, yn enwedig y rhai sy’n agored i niwed, yn cael eu cefnogi a’u diogelu drwy’r trawsnewidiadau hyn.
- **Rhaglen goruchwylio'r post:** Bydd ein rhaglen monitro a goruchwylio'r post yn parhau i asesu'r canlyniadau i ddefnyddwyr a busnesau yn y marchnadoedd llythyrau a pharseli. Yn benodol, byddwn yn monitro ansawdd perfformiad gwasanaeth y Post Brenhinol yn ofalus a'r cynnydd o ran rhoi’r broses o ddiwygio’r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) ar waith. Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi yn ein hadroddiad blynyddol monitro’r post ddiwedd 2026.
- **Rhaglen goruchwylio defnyddwyr:** Rydym yn gwella ein rhaglen goruchwylio defnyddwyr fel y gallwn barhau i sicrhau bod ein hymyriadau a'n mentrau gwirfoddol i ddiogelu defnyddwyr yn cael eu darparu'n briodol a'u bod yn sbarduno canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr, gan gynnwys defnyddwyr agored i niwed. Fel rhan o hynny, byddwn yn ceisio cynyddu ein gwybodaeth a'n gwaith o fonitro'r sector yn ogystal â'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid er mwyn nodi a mynd i'r afael â materion polisi yn well. Byddwn hefyd yn adolygu effaith y newidiadau ar ein rheolau sy'n mynnu bod darparwyr yn nodi unrhyw gynnydd mewn prisiau o fewn contractau ymlaen llaw mewn punnoedd a cheiniogau, ac addasrwydd y rheolau ar addasiadau i gontractau.
- **Rhaglen goruchwylio diogelwch a gwydnwch:** Rydym yn gwella ein dull goruchwylio i sicrhau bod rhwydweithiau'n ddiogel ac yn wydn. Bydd hyn yn cynnwys parhau i fonitro cydymffurfiaeth darparwyr cyfathrebiadau â'r dyletswyddau diogelwch a nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003, a byddwn yn cyflwyno ein trydydd adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Ch3 2026/27. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid, yn enwedig Labordy Telegyfathrebiadau'r DU a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) i rannu gwybodaeth am ddiogelwch a gwydnwch telegyfathrebiadau.
- **Cysylltu’r Gwledydd:** Byddwn yn parhau i adrodd ar ddarpariaeth, nifer, defnydd ac argaeledd rhwydweithiau band eang a symudol ar draws gwledydd a rhanbarthau’r DU. Rydym hefyd yn bwriadu adolygu ein ffordd o adrodd ar Gysylltu'r Gwledydd i sicrhau ei bod yn dal yn addas i'r diben, a pharhau i ddiweddaru ein prosesau ar gyfer cael gafael ar ddata, ei gyhoeddi a sicrhau ei fod ar gael lle bo hynny'n briodol.

# Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi

Mae’r flaenoriaeth hon yn ymwneud â sicrhau bod cynulleidfaoedd ledled y DU yn gallu parhau i gael gafael ar amrywiaeth o gyfryngau darlledu ac ar-alw a’u bod yn cael eu diogelu rhag cynnwys niweidiol. Wrth i bobl symud fwyfwy ar-lein ar gyfer adloniant a gwybodaeth, byddwn hefyd yn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar newyddion a ddarlledir sy’n ddibynadwy, yn briodol gywir ac yn briodol ddiduedd. Mae'r flaenoriaeth hon hefyd yn ymwneud â sicrhau'r dull rheoleiddio cywir i gefnogi diwydiant creadigol ffyniannus sy'n sbarduno arloesedd a thwf.

2.9 Wrth gyflawni ein gwaith i ddarparu ‘Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi’, mae ein rhaglen waith yn ceisio sicrhau’r canlyniadau canlynol:

- Gall cynulleidfaoedd ganfod a chael gafael ar amrywiaeth eang o gynnwys, fel cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy’n cael ei gynhyrchu ledled y DU ac sy’n adlewyrchu ei hamrywiaeth.
- Gall cynulleidfaoedd ganfod a chael gafael ar amrywiaeth o newyddion sy’n briodol gywir, yn briodol ddiduedd ac yn ddibynadwy.
- Mae darparwyr cyfryngau yn cystadlu’n deg ac yn agored am gynulleidfaoedd.
- Mae cynulleidfaoedd yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, ac mae rhyddid mynegiant yn cael ei ddiogelu.




2.10 Mae ein prosiectau allweddol dros y flwyddyn nesaf i gyflawni ein blaenoriaeth 'Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi' yn perthyn i dri chategori eang: rhoi’r Ddeddf Cyfryngau ar waith; cryfhau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus; a chynnal rhaglen

barhaus o weithgareddau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bob cynulleidfa. Rydym yn ymhelaethu ar bob un o'r rhain isod.

2.11 Y Ddeddf Cyfryngau yw'r diweddariad mawr cyntaf i ddeddfwriaeth cyfryngau'r DU mewn 20 mlynedd. Mae'n diwygio ac yn symleiddio'r gofynion ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau radio, yn gosod rhwymedigaethau newydd ar lwyfannau cysylltiedig, ac yn cryfhau'r rheoleiddio ar wasanaethau Fideo Ar-alw (VoD). Byddwn yn cwblhau diweddariadau i'r rheoliadau presennol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cyfryngau erbyn mis Ebrill 2026, gyda'r rhan fwyaf o feysydd yn symud i fusnes fel arfer yn ystod 2026/27. Dros y flwyddyn nesaf, wrth roi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith, byddwn yn helpu cynulleidfaoedd i ddal gafael ar eu mynediad at gynnwys dibynadwy o ansawdd uchel ar draws pob llwyfan.

2.12 Dyma ein prif brosiectau dros y flwyddyn nesaf yn y maes hwn:

- **Rheoleiddio Fideo Ar-alw (VoD):** Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn cyflwyno rheoleiddio ychwanegol 'Haen 1' ar gyfer rhai gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS), gan gynnwys gwasanaethau o'r tu allan i'r DU, o dan god safonau ar-alw newydd. Bydd gwasanaethau Haen 1 hefyd yn destun rhwymedigaethau hygyrchedd o dan god hygyrchedd newydd. Byddwn yn ymgynghori ar y ddau god yn 2026, gan ddilyn rheoliadau'r llywodraeth sy'n pennu pa wasanaethau sy'n wasanaethau Haen 1.
- **Dynodi Gwasanaethau Ar-alw Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus:** Cyflwynodd y Ddeddf Cyfryngau fframwaith cyfreithiol newydd i sicrhau amlygrwydd gwasanaethau ar-alw darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau teledu cysylltiedig. Byddwn yn penderfynu a yw gwasanaethau ar-lein a gynigir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer amlygrwydd. Ar gyfer ceisiadau a ddaw i law ddechrau 2026, ein nod yw cyhoeddi penderfyniadau dynodi terfynol yn Ch1 2026/27.
- **Amlygrwydd a Hygyrchedd:** Byddwn yn cyhoeddi'r Cod Ymarfer terfynol yn Ch2 2026/27, gan amlinellu sut gall llwyfannau teledu cysylltiedig gydymffurfio â gofynion amlygrwydd a hygyrchedd. Ar yr un pryd, byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar gytundebau masnachol rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau sy'n cael eu rheoleiddio, yn dilyn yr ymgynghoriad yn Ch3 2025/26.
- **Rheoleiddio gwasanaethau dethol radio (cynorthwywyr llais):** Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn cyflwyno trefn newydd i sicrhau bod ffrydiau ar-lein gwasanaethau darlledu radio yn dal ar gael drwy ddyfeisiau sy'n cael eu hysgogi gan lais. Yn dilyn argymhellion gan Ofcom, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dynodi pa wasanaethau dethol radio y bydd y drefn yn berthnasol iddynt. Byddwn yn ymgynghori ar God Ymarfer drafft yn Ch1 2026/27, gan amlinellu sut gall gwasanaethau dethol radio dynodedig gyflawni eu dyletswyddau newydd.

2.13 Fel y nodwyd gennym yn ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – Argyfwng Darlledu – mae sector darlledu'r DU yn trawsnewid yn gyflym. Mae darlledwyr yn brwydro am sylw cynulleidfaoedd gyda chwmnïau technoleg byd-eang sy'n darparu amrywiaeth gynyddol o gynnwys. Mae cynulleidfaoedd yn llai tebygol o ddod i gysylltiad ag ehangder y cynnwys y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei ddarparu yn y DU, fel newyddion a rhaglenni dibynadwy a chywir sy'n cynrychioli amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r DU ac sy'n dod â'r DU at ei gilydd. Yn ein hadroddiad, rydym yn nodi chwe chanlyniad y dylai'r

sector, y Llywodraeth ac Ofcom weithio tuag atynt ar frys er mwyn cynnal a chryfhau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

2.14 Gan adeiladu ar hyn, dyma ein prosiectau allweddol sy'n ymwneud â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- **Adolygu’r Rheoleiddio ar Ddarlledu**: Cafodd llawer iawn o’r fframwaith rheoleiddiol presennol ei ddylunio ar gyfer byd llinol. Byddwn yn asesu pa newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod y rheoleiddio'n cefnogi cynulleidfaoedd lle bynnag maen nhw'n gwylio neu'n gwrando, gan alluogi arloesedd a thwf ar yr un pryd. Byddwn yn adolygu adborth rhanddeiliaid, mewn ymateb i’n Galwad am Fewnbwn a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025, ar effaith y rheoleiddio presennol ac yn edrych ar y mannau lle nad oes angen rheoleiddio mwyach, o bosibl, o ystyried datblygiadau yn y farchnad, neu lle mae'n cyfyngu ar arloesedd a chystadleuaeth. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn yn 2026/27 gan ei bod yn hanfodol nad yw rheoleiddio'n llesteirio arloesedd nac yn atal buddsoddiad mewn cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- **Newyddion a'r Gallu i Ganfod Cynnwys:** Wrth i'r defnydd o gyfryngau symud ar-lein, byddwn yn ystyried sut gall rheoleiddio fod yn sail i newyddion dibynadwy a chywir i bob cynulleidfa. Byddwn yn comisiynu ymchwil yn 2026 i archwilio sut mae cynulleidfaoedd yn darganfod ac yn ymgysylltu â newyddion a chynnwys i blant ar-lein gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a bydd hyn yn helpu i daflu goleuni ar sut y gellir dod o hyd i'r cynnwys hwn yn haws ar lwyfannau trydydd parti.
- **Adolygu Siarter y BBC:** Mae Siarter bresennol y BBC yn rhedeg tan ddiwedd 2027. Mae'r Llywodraeth wedi dweud y bydd yn lansio adolygiad o Siarter y BBC cyn adeg ei hadnewyddu a bydd yn edrych ar amrywiaeth o faterion i wneud yn siŵr bod y BBC yn cynrychioli pob person yn y DU ac yn cyflawni ar eu cyfer, gan ddarparu cynnwys, a newyddion yn rhan ohono, y gall cynulleidfaoedd ymddiried ynddo. Byddwn yn cefnogi'r adolygiad hwn ac yn rhoi mewnbwn fel y bo'n briodol yn ystod 2026/27.
- **Dyfodol Dosbarthu Teledu:** Byddwn yn parhau i gefnogi'r Llywodraeth wrth iddi ystyried ei phenderfyniad ar ddyfodol dosbarthu teledu, gan asesu'r goblygiadau i'n gwaith, yn enwedig o ran cynnal cyffredinolrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

2.15 Rydym hefyd yn cadw llygad manwl ar fwriad Sky (sy'n eiddo i Comcast) i gaffael ITV. Yn ôl disgresiwn yr Ysgrifennydd Gwladol, mae gan Ofcom rôl statudol yn y broses hon a byddwn yn blaenoriaethu'r gwaith hwn os bydd gofyn i ni wneud hynny.

2.16 Mae ein Cynllun Gwaith hefyd yn cynnwys rhaglen barhaus o weithgareddau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bob cynulleidfa. Nod y gwaith hwn yw sicrhau mynediad cyffredinol at gynnwys o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn diddanu ac yn cysylltu cymunedau; yn cefnogi cyfranogiad democrataidd; ac yn darparu rhaglenni cynhwysol sy'n adlewyrchu profiadau a lleisiau amrywiol ledled y DU, gan helpu i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol. Mae hyn yn ymestyn i radio masnachol a chymunedol sydd hefyd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddarparu newyddion a rhaglenni lleol sy'n cryfhau cysylltiadau cymunedol.

2.17 Mae ein meysydd gwaith parhaus yn y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

- **Gosod a gorfodi safonau cynnwys:** Byddwn yn parhau i osod a gorfodi ein rheolau safonau cynnwys ar gyfer gwasanaethau teledu, radio ac ar-alw, gan helpu i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu rhag cynnwys niweidiol. Mae hyn yn cynnwys deunydd sy'n debygol o gymell troseddu ac iaith casineb heb gyd-destun, gan ddiogelu rhyddid mynegiant ar yr un pryd. Byddwn hefyd yn parhau i sicrhau didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion a didueddrwydd dyladwy mewn materion cyfoes.
- **Trwyddedau darlledu:** Byddwn yn parhau i gyhoeddi, rheoli a chynnal trwyddedau ar gyfer yr holl wasanaethau teledu masnachol lleol a chenedlaethol, gwasanaethau radio masnachol digidol a gwasanaethau radio cymunedol digidol a gwasanaethau radio analog cyfyngedig. Byddwn yn parhau i ymateb i geisiadau gan randdeiliaid i wneud newidiadau i'w trwyddedau lle bo hynny'n briodol.
- **Monitro perfformiad a chystadleuaeth y BBC:** Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y BBC, ei effaith ar gystadleuaeth a'i gydymffurfiaeth â safonau cynnwys drwy gydol y cyfnod.
- **Monitro ac adrodd ar amrywiaeth mewn darlledu:** Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â chasglu data blynyddol ar gyfer ein hadroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Byddwn yn parhau i ddal y diwydiant yn atebol, gan dynnu sylw at fylchau a hyrwyddo cynnydd tuag at sector sy'n fwy cynrychioliadol.
- **Monitro hygyrchedd Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw:** Byddwn yn parhau i fonitro hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS) ac yn ceisio cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ochr yn ochr ag adrodd ar ddata hygyrchedd darlledu.

# Rydyn ni’n byw bywyd mwy diogel ar-lein

Mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud ag amddiffyn pob defnyddiwr rhag cynnwys anghyfreithlon ar-lein ac amddiffyn plant rhag y deunydd mwyaf niweidiol ar-lein. Rydym yn canolbwyntio ar sbarduno newid, gan gynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau sydd bellach mewn grym a monitro'r effaith ar niwed dros amser. Byddwn yn bwrw ymlaen â thrydydd cam a cham olaf gweithredu'r drefn diogelwch ar-lein ac yn sicrhau ein bod yn defnyddio ein holl bwerau i sicrhau bod gwasanaethau'n gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol i ddiogelu defnyddwyr.

2.18 Dyma ein nodau hirdymor o hyd:

- Llywodraethu cryfach ar ddiogelwch mewn gwasanaethau ar-lein yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o’r risgiau.
- Gwasanaethau ar-lein wedi’u dylunio a’u gweithredu gyda diogelwch mewn golwg.
- Mwy o ddewis i ddefnyddwyr er mwyn iddynt gael rheolaeth ystyrlon dros eu profiadau ar-lein.
- Mwy o ymddiriedaeth yn y byd ar-lein drwy gael mwy o dryloywder o ran sut mae llwyfannau’n cadw defnyddwyr yn ddiogel.
- Gwella'r drefn diogelwch ar-lein drwy feithrin y gallu, y systemau, y prosesau a'r perthnasoedd sydd eu hangen er mwyn ei chyflawni'n effeithiol.




2.19 Mae ein hadroddiad cyntaf ar gyflwr diogelwch ar-lein yn y DU, a gyhoeddwyd ar 4 Rhagfyr, yn dangos ein bod yn dechrau gweld newid wrth i ddyletswyddau'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ddod i rym. Mae'r sylfeini wedi'u gosod eleni ond mae tasg fawr o'n blaenau.

2.20 Yn 2025/26 fe wnaethom gwblhau'r codau Niwed Anghyfreithlon ac Amddiffyn Plant a’r canllawiau ar weithredu sicrwydd oedran effeithiol iawn, a dechrau mynd ati i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion craidd hyn. Rydym hefyd wedi sefydlu ein swyddogaethau ffioedd, uwch-gŵynion, ac adrodd ar dryloywder. Mae’r diweddariad ar roi diogelwch ar-

lein ar waith a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar yn nodi'r amserlenni ar gyfer y codau, y canllawiau, a'r adroddiadau statudol sy'n weddill o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

2.21 Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar y pum maes a nodwyd gennym i'w gwella ar unwaith yn ein bwletin Diwydiant ym mis Ionawr. Gan fyfyrio ar ein gwaith, er bod llawer o bobl yn cael profiadau diogel a gwerth chweil ar-lein, mae cynnwys troseddol a niweidiol yn dal i fod ar gael yn rhy eang. Am y tro cyntaf, mae gan lawer o gwmnïau bellach adnoddau i adnabod defnyddwyr sy'n blant – ond dim ond y cam cyntaf yw hwn, gan fod angen ei ategu o hyd ag ymdrechion i atal plant rhag dod i gysylltiad â niwed. Mae hyn yn cynnwys meithrin perthynas amhriodol, dod i gysylltiad â deunydd sy'n hyrwyddo hunanladdiad a hunan-niweidio, a chamfanteisio a cham-drin yn rhywiol. Yn 2026/27, byddwn yn parhau i weithredu gweddill elfennau craidd y Ddeddf Diogelwch Ar-lein i sicrhau bod gennym sylfaen gadarn ar gyfer dyfodol rheoleiddio diogelwch ar-lein. Mae ein map ffordd diweddaraf sy'n nodi'r prif bethau sydd gennym i'w cyflawni ar gyfer 2026/27 wedi'i grynhoi isod.

2.22 Dros y flwyddyn nesaf, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol i gefnogi'r flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- **Dyletswyddau ar wasanaethau wedi'u categoreiddio.** Ar ôl i her gyfreithiol i is-ddeddfwriaeth y Llywodraeth ar gategoreiddio gwasanaethau ddod i ben, rydym wedi addasu ein cynlluniau. Bydd proses sylwadau'n cael ei chynnal erbyn Ch1 2026/2027 er mwyn caniatáu i wasanaethau a allai fod wedi'u categoreiddio roi sylwadau ar benderfyniadau amodol cyn paratoi fersiwn derfynol y gofrestr. Yn amodol ar y broses hon, nod Ofcom yw cyhoeddi'r gofrestr gategoreiddio derfynol ac ymgynghori ar ddyletswyddau ychwanegol (gan gynnwys y rheini ar hysbysebu twyllodrus, telerau gwasanaeth, grymuso defnyddwyr, dilysu ID, a mesurau diogelu sy'n gysylltiedig â chynnwys) yn Ch2 2026/2027, gyda datganiadau polisi terfynol yn cael eu cyhoeddi erbyn Ch3 2027/2028.

- **Mwy o dryloywder o ran sut mae llwyfannau'n cadw defnyddwyr yn ddiogel.** Rydym wedi cwblhau'r canllawiau ar gyfer adrodd ar dryloywder. Ar ôl i'r gofrestr gategoreiddio gael ei chyhoeddi, bydd yn rhaid i wasanaethau wedi'u categoreiddio gyhoeddi eu hadroddiadau tryloywder cyntaf erbyn Ch2 2027 a bydd yn rhaid i wasanaethau Categori 1 gyhoeddi crynodebau o'u hasesiadau risg yn Ch3 2026/27.

- **Mesurau diogelwch ychwanegol i wella ein codau.** Ym mis Mehefin, fe wnaethom ymgynghori ar fesurau diogelwch ychwanegol i gryfhau ein Codau Niwed Anghyfreithlon ac Amddiffyn Plant. Nod y cynigion hyn yw atal cynnwys anghyfreithlon rhag mynd yn feirol, mynd i'r afael â niwed yn y man lle mae'n tarddu, a gwella amddiffyniadau plant yn ystod ffrydio byw. Mae'r ymgynghoriad wedi dod i ben, ac rydym yn adolygu'r ymatebion. Disgwyliwn gyhoeddi ein datganiad erbyn Ch3 2026/27.

- **Dangos bod gwiriadau oedran yn effeithiol iawn.** Gan adeiladu ar y newidiadau sylweddol rydym wedi'u gweld eleni, byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant oedolion i ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio a mynd i'r afael â hynny. Byddwn yn monitro'r 100 safle pornograffi mwyaf i sicrhau bod y gwasanaethau mwyaf poblogaidd yn parhau i ddefnyddio sicrwydd oedran a byddwn yn cymryd camau gweithredu pan fydd ein tystiolaeth yn awgrymu nad yw eu hatebion yn ddigon effeithiol o ran penderfynu a yw defnyddiwr yn blentyn ynteu'n oedolyn.

- **Profiadau mwy diogel i blant.** Mae amddiffyn plant yn ofyniad nad yw'n agored i'w drafod ar gyfer darparwyr gwasanaethau, a dyma brif flaenoriaeth Ofcom o hyd. Mae'n rhaid i'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio fwyaf gan blant roi gwybodaeth gynhwysfawr i ni am eu mesurau diogelwch plant, a gwneud gwelliannau'n brydlon lle bo angen. Rhaid iddynt ganolbwyntio ar y risgiau sy'n gysylltiedig â ffrydiau personol plant, gan gynnwys y prosesau cymedroli cynnwys y maent yn eu defnyddio i asesu a chymryd camau priodol yn erbyn cynnwys niweidiol, a'u mesurau diogelu i atal systemau argymell rhag hyrwyddo cynnwys niweidiol i ddefnyddwyr sy'n blant.

- **Atal achosion o gam-drin plant yn rhywiol a meithrin perthnasoedd amhriodol.** Wrth fynd i'r afael â deunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM) a meithrin perthnasoedd amhriodol eleni fe wnaethom ganolbwyntio ein hymdrechion ar sicrhau bod gwasanaethau rhannu ffeiliau a oedd yn arbennig o beryglus o ran CSAM yn defnyddio technolegau cyfateb hash. Y flwyddyn nesaf byddwn yn ehangu ein ffocws i ddarparwyr gwasanaethau eraill sy'n peri'r risg uchaf o CSAM i sicrhau bod mesurau diogelu cryfach yn erbyn CSAM a meithrin perthnasoedd amhriodol ar waith ar draws cynifer o wasanaethau â phosibl. Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau mawr sydd â risgiau o ran meithrin perthnasoedd amhriodol wedi mabwysiadu mesurau 'diogelwch plant diofyn' digonol, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, mesurau i dynnu plant o hysbysiadau ehangu rhwydwaith, gan sicrhau nad oes modd anfon neges atynt heb fod eu cyfrifon wedi'u cysylltu'n flaenorol, a bod rhannu lleoliad wedi'i ddiffodd fel y dewis diofyn.

- **Cael gwared ar gynnwys anghyfreithlon yn fwy effeithiol.** Mae'r adroddiadau am dystiolaeth gyson bod cynnwys terfysgaeth a chasineb anghyfreithlon yn dal i ymddangos ar y prif lwyfannau, ar ôl iddynt gael gwybod am hynny, yn awgrymu bod angen gwella prosesau cymedroli cynnwys. Rydym wedi dechrau ar waith i ganfod a oes gan y darparwyr cyfryngau cymdeithasol mwyaf ffyrdd digonol o asesu a chael gwared yn gyflym ar ddeunydd anghyfreithlon y maent wedi cael gwybod amdano. Erbyn Ch1 2026/27 byddwn wedi adolygu systemau un gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mawr ar gyfer tynnu cynnwys terfysgaeth a chasineb anghyfreithlon i lawr, gan gynnwys deunydd gwrthsemitaidd a gwrth-Fwslimaidd, a byddwn wedi ystyried a oes angen cymryd camau gorfodi, ac yna byddwn yn ehangu'r gwaith hwn i wasanaethau cyfryngau cymdeithasol eraill.

- **Profiadau mwy diogel i fenywod a merched**. Ym mis Tachwedd fe wnaethom gyhoeddi ein canllawiau sy'n nodi naw maes lle dylai darparwyr gwasanaethau wneud mwy i wella diogelwch menywod a merched ar-lein. Mae hyn yn cynnwys cymryd cyfrifoldeb a dylunio eu gwasanaethau i atal niwed a chefnogi eu defnyddwyr. Yn 2026/27 byddwn yn gweithio'n agos gyda chwmnïau i ganfod pa gamau maent yn eu cymryd i ddiogelu menywod a merched ac yn eu herio i wneud gwelliannau lle bo hynny'n briodol. Bydd hyn yn sail i adroddiad y byddwn yn ei gyhoeddi ym mis Mai 2027 i dynnu sylw at yr hyn y mae gwasanaethau'n ei wneud – neu ddim yn ei wneud – i greu bywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched, gyda'r bwriad o sbarduno camau pellach lle bo angen.

- **Asesiadau risg gwell a goruchwylio risg yn gliriach.** Bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau anfon eu cofnodion asesu risgiau i blant a niwed anghyfreithlon ar gyfer blwyddyn dau ar gais yn Ch1 2026/27. Rydym yn disgwyl iddynt fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella yr ydym yn tynnu sylw atynt yn ein hadroddiad ar asesiadau risg eleni, ac â'r adborth unigol y byddwn yn ei roi ar eu hasesiadau cyntaf.

- **Gweithio gyda chymdeithasau sifil a phartneriaid eraill.** Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau cymdeithas sifil a phartneriaid ar draws y Llywodraeth i helpu i lunio a llywio ein gwaith. Mae ymgysylltu'n fanwl â sefydliadau cymdeithas sifil a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol wedi bod yn hanfodol i helpu i lywio'r mesurau ychwanegol yr ydym yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd, ac rydym yn disgwyl gweld y drefn uwch-gŵynion newydd yn cynnig llwybr pwysig arall i sefydliadau arbenigol ddod â materion newydd a materion sy'n dod i'r amlwg i'n sylw.
- **Parhau i roi'r drefn ar waith.** Byddwn yn parhau i roi swyddogaethau allweddol y drefn ar waith, gan gynnwys uwch-gŵynion a thryloywder, gan barhau hefyd i ddatblygu ein galluoedd data a gwybodaeth, a gweithio'n agos gyda phartneriaid allanol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein cyngor terfynol ar safonau achredu gofynnol ar gyfer Hysbysiadau Technegol. Disgwylir i'r drefn ffioedd fod yn gwbl weithredol, gyda disgwyl i'r anfonebau ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 gael eu cyhoeddi yn Ch3 ar ôl i ddarparwyr hysbysu Ofcom yn gynharach yn y flwyddyn.
- **Gwerthuso'r effaith.** Byddwn yn monitro a yw bywyd yn mynd yn fwy diogel ar-lein. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau gan gynnwys data gan wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, adroddiadau gan drydydd partïon, ymchwil gan Ofcom, a gwybodaeth gan gymdeithas sifil ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau mewn adroddiadau pellach ar ddiogelwch ar-lein gan gynnwys tri adroddiad statudol ar siopau apiau, sicrwydd oedran a chynnwys sy'n niweidiol i blant.
- **Gorfodi.** Rydym yn gweithio i sbarduno cydymffurfiaeth a byddwn yn parhau i ddefnyddio camau gorfodi mewn ffordd strategol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr, yn enwedig plant. Byddwn yn defnyddio camau gorfodi yn briodol i gael yr effaith fwyaf ar feysydd sydd o bwysigrwydd allweddol, fel amddiffyn plant rhag cynnwys niweidiol. Mae ein camau gorfodi yn ehangach nag ymchwiliadau ffurfiol yn unig. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys ymgysylltu anffurfiol, llythyrau rhybuddio, adfer cydymffurfiaeth, ac ymchwiliadau ffurfiol. Mae rhagor o wybodaeth am ein dull gorfodi ar gael yn ein canllawiau gorfodi diogelwch ar-lein.

## Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau

Ein gweledigaeth yw bod gan bobl y DU y sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sydd eu hangen arnynt, a bod gwasanaethau ar-lein a darlledwyr y DU yn chwarae eu rhan i sicrhau bod pobl yn gallu llywio drwy'r cynnwys a ffynnu'n ddiogel ar-lein. Mae ein dyletswyddau o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn fwyaf perthnasol i'n blaenoriaethau 'Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi' ac 'Rydym ni'n byw bywyd mwy diogel ar-lein', ond rydym yn gwybod eu bod yn berthnasol i ddefnyddwyr a dinasyddion ar draws yr holl sectorau y mae Ofcom yn eu rheoleiddio.

Rydym flwyddyn i mewn i'n strategaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, ac mae ein cynllun cyflawni yn rhoi manylion ein gwaith hyd at ddiwedd 2026/27. Dyma ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod:

2.23 **Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso:** byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein harolygon newydd sy’n tracio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ymhlith Plant a Rhieni a hefyd ymhlith Oedolion – arolygon sy’n rhoi sylw i arferion ac agweddau poblogaeth y DU mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Byddwn yn rhoi ein canfyddiadau ymchwil ein hunain a chanfyddiadau pobl eraill ar waith i greu dealltwriaeth weithredol o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer datblygu polisïau. Byddwn yn cyhoeddi gwerthusiad canol tymor o'n strategaeth tair blynedd ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

*2.24* **Ymgysylltu â Llwyfannau:** byddwn yn cyhoeddi'r Datganiad o Argymhellion terfynol sy'n nodi'r camau y gall gwasanaethau o bob maint eu cymryd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Byddwn yn dod â’r Datganiad o Argymhellion drafft a therfynol i sylw'r rhai y mae’n fwyaf tebygol o effeithio arnynt ac yn ehangu'r ystod o wasanaethau rydym yn ymgysylltu â nhw ynghylch ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Byddwn yn parhau i hyrwyddo’r arferion gorau o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ddylunio drwy ymgysylltu â llwyfannau gyda gwybodaeth sy’n deillio o'n hymchwil ar ddylunio ymddygiadol a pherswadiol.

2.25 **Pobl a Phartneriaethau:** byddwn yn cefnogi pobl ifanc, yn enwedig y rheini sy'n pleidleisio am y tro cyntaf, i ddeall sut i farnu a yw gwybodaeth yn gywir cyn yr etholiadau yng Nghymru a'r Alban yn 2026 fel rhan o'n prosiect Lleisiau Gwybodus. Byddwn yn datblygu ein rôl yn cefnogi sefydliadau sydd â chyrhaeddiad cymunedol dwfn, fel clybiau pêl-droed, corfforaethau ac awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygu sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Mae rhagor o fanylion am ein cynlluniau ar gyfer 2026/27 ar gael yn ein Cynllun Cyflawni Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.


## Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi’r DU

Mae’r flaenoriaeth hon yn ymwneud â sicrhau bod sbectrwm yn parhau i fod yn alluogwr effeithiol ar gyfer cyfathrebu di-wifr i bob person, busnes, a sector. Rydym yn ceisio sicrhau bod sbectrwm yn parhau i gefnogi’r twf mewn galw am amrywiaeth gynyddol o wasanaethau, gan alluogi arloesi a thwf economaidd.

2.26 Mae sbectrwm radio yn sail i amrywiaeth enfawr o dechnolegau di-wifr sy'n pweru ein bywydau bob dydd ac yn cynnal cysylltiadau ledled y DU. O ffonau symudol, Wi-Fi a Bluetooth i ddarlledu radio, teledu a llywio lloeren, mae sbectrwm yn galluogi gwasanaethau hanfodol i weithredu'n ddi-dor ar draws cymdeithas. Mae hefyd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi ymateb brys, monitro'r hinsawdd, rheoli traffig awyr, systemau radar ac amddiffyn ar lefel genedlaethol.

2.27 Wrth i'r galw am sbectrwm barhau i dyfu – a hynny wedi'i sbarduno gan wasanaethau sy’n bodoli eisoes a datblygiadau newydd sy'n dod i'r amlwg – ein blaenoriaeth yw sicrhau bod yr adnodd cyfyngedig hwn yn cael ei reoli'n effeithlon ac yn sicrhau'r manteision gorau posibl i'r DU. Ein nod yw meithrin twf economaidd a gwell cysylltedd drwy alluogi mynediad amserol at sbectrwm ar gyfer cenedlaethau newydd o wasanaethau symudol a lloeren a gwasanaethau nad oes angen trwydded arnynt (fel Wi-Fi), gan ddefnyddio modelau awdurdodi hyblyg a hyrwyddo mwy o rannu sbectrwm ar draws gwahanol fathau o ddefnydd.

2.28 Gall mynediad hyblyg at sbectrwm alluogi gwasanaethau newydd arloesol, fel gwasanaethau lloeren Uniongyrchol i Ddyfeisiau sy'n gallu darparu cysylltedd symudol yn y rhannau mwyaf anghysbell o'r DU a mannau eraill lle na cheir cyswllt symudol. Rydym ni'n disgwyl gweld y gwasanaethau hyn yn cael eu lansio yn 2026 o ganlyniad i fframwaith awdurdodi sbectrwm newydd rydym ni wedi'i ddatblygu eleni.




2.29 Wrth ymgymryd â’n gwaith i ‘Alluogi gwasanaethau di-wifr yn economi’r DU’ rydym yn ceisio sicrhau’r canlyniadau canlynol:

- Sicrhau mynediad rhanddeiliaid at sbectrwm a lliniaru ymyriant niweidiol drwy weithgareddau trwyddedu, cynllunio, monitro a chydymffurfio sy'n galluogi gwasanaethau di-wifr.
- Canfod a darparu sbectrwm i ddiwallu anghenion datblygol sectorau, gan gynnwys band eang symudol a gwasanaethau gofod.
- Datblygu ein fframweithiau rheoli sbectrwm i gefnogi defnydd mwy effeithlon, gwella cyflymder a hyblygrwydd mynediad a gwella argaeledd sbectrwm.
- Arwain a dylanwadu ar drafodaethau rhyngwladol ar fynediad sbectrwm ar yr un pryd â chynrychioli buddiannau'r DU yn effeithiol.

2.30 Dyma ein prosiectau allweddol dros y flwyddyn nesaf i gefnogi ein blaenoriaeth 'Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU':

- **Diwallu'r galw cynyddol am sbectrwm ar gyfer y gofod:** Byddwn yn parhau i adolygu a diweddaru ein fframwaith awdurdodi i ddiwallu'r galw cynyddol am sbectrwm newydd gan wasanaethau sy'n ymwneud â'r gofod. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer awdurdodi yn y band MSS 2 GHz yn y dyfodol, adolygu ein dull o awdurdodi terfynellau MSS a pharhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar flaenoriaethau strategol ar gyfer y dyfodol.

- **Diwallu'r galw datblygol am sbectrwm ar gyfer band eang di-wifr:** Rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad yn amlinellu ein penderfyniadau i ddarparu bloc uchaf y band 1.4 GHz ar gyfer gwasanaethau symudol cyn diwedd blwyddyn ariannol 2025/26, gyda'r bwriad o ddyfarnu'r sbectrwm hwn ym mlwyddyn ariannol 2026/27. Ar ôl yr arwerthiant, byddwn yn dechrau gweithio ar osod Ffi Trwydded Flynyddol ar gyfer bloc canol y band 1.4 GHz, sydd wedi'i drwyddedu i VMO2 a VodafoneThree ar hyn o bryd. Ar wahân, byddwn yn archwilio a allai rhannu sbectrwm wella cysylltedd lle mae'n anodd ei ddarparu, mewn rhai lleoliadau gwledig er enghraifft. Byddwn hefyd yn edrych ar fanteision posibl cyflwyno dull cyson o ddad-ddarnio daliadau mewn bandiau sbectrwm symudol yn y dyfodol.

- **Diwallu'r galw datblygol am sbectrwm o dan 1 GHz:** Byddwn yn cychwyn adolygiad traws-sector sawl blwyddyn o hyd o'r defnydd presennol a'r galw yn y dyfodol am sbectrwm o dan 1 GHz, gan gynnwys Teledu Daearol Digidol (DTT), gwasanaethau symudol, cyfleustodau a seilwaith cenedlaethol hollbwysig arall. Bydd canlyniadau'r adolygiad yn sail i ystyriaethau polisi sy'n ymwneud â dyfodol teledu daearol digidol ac archwilio cyfleoedd i ddefnyddio'r sbectrwm gwerthfawr hwn yn fwy effeithlon.

- **Gwneud mwy o ddefnydd effeithlon o sbectrwm:** Byddwn yn parhau â'n gwaith i sbarduno defnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon, gan gynnwys drwy rannu sbectrwm. Byddwn yn ceisio galluogi rhagor o arloesi mewn rhwydweithiau symudol a Wi-Fi, drwy wella mynediad at y band 6 GHz. Mae hyn yn cynnwys bwrw ymlaen â'n gwaith mewn perthynas â Wi-Fi pŵer uwch yn yr awyr agored drwy Reoli Amledd Awtomatig (AFC); ehangu mynediad ar gyfer Wi-Fi pŵer isel dan do; a gwasanaethau symudol. Byddwn yn parhau i ystyried gwelliannau pellach i fynediad band, megis ar gyfer Realiti Estynedig (XR) ar 'sbectolau clyfar' ac achosion eraill â defnydd Pŵer Isel Iawn (VLP). Ar wahân i hyn, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn a defnyddwyr sbectrwm eraill yn y sector cyhoeddus i ganfod cyfleoedd i ddefnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon.

- **Ymgysylltu rhyngwladol - WRC-27:** Yn unol â Chyfarwyddyd gan y llywodraeth, byddwn yn cynnal arweinyddiaeth Ofcom i sicrhau bod buddiannau'r DU yn cael eu hystyried yn briodol mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm, gan gynnwys yn y CEPT a'r ITU. Byddwn yn cyfrannu'n weithredol at ddatblygu adroddiadau, argymhellion a phenderfyniadau rhyngwladol sy'n mynd i'r afael â rheoli a chysoni sbectrwm, ac yn arwain paratoadau'r DU ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu nesaf y Byd (WRC) a fydd yn cael ei chynnal ddiwedd 2027. Mae Ofcom yn disgwyl cyhoeddi Galwad am Fewnbwn ar ddatblygu safbwyntiau'r DU ar gyfer WRC-27 yn Ch2 2026/7.
- **Cyflwyno cynnyrch newydd ar gyfer arloesi a thwf:** Byddwn yn datblygu ein fframweithiau awdurdodi sbectrwm er mwyn gallu mabwysiadu technolegau arloesol. Bydd hyn yn cynnwys gwaith i ganfod amleddau ychwanegol ar gyfer rheoli dronau ac ar gyfer nodweddion diogelwch ychwanegol ar ddronau, yn ogystal â galluogi defnyddio technolegau newydd i reoli'r risgiau diogelwch cynyddol a achosir yn sgil defnyddio dronau yn elyniaethus neu'n faleisus.

2.31 Mae'r meysydd gweithgarwch penodol hyn yn cael eu hategu gan raglenni gwaith parhaus i wella'r hyn a gyflawnir yn weithredol:

- **Trwyddedu, Sicrwydd, Cydymffurfiaeth:** Byddwn yn parhau i gryfhau a datblygu'r modd y mae gwaith Trwyddedu, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth Sbectrwm yn cael ei gyflawni'n weithredol, gan gefnogi rhanddeiliaid drwy brosesau effeithlon, monitro gwell a chanolbwyntio ar alluogi defnyddio sbectrwm yn effeithiol. Byddwn yn gwella'r modd yr ydym yn darparu gwybodaeth am ddefnyddio sbectrwm ar ein gwefan. Bydd gweithgareddau gweithredol yn sicrhau bod y sbectrwm yn parhau i fod yn addas i'r diben drwy nodi risgiau ac addasu i ofynion technolegol sy'n datblygu. Byddwn yn cefnogi Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow i sicrhau bod sbectrwm heb ymyriant ar gael i'r darlledwyr a'r trefnwyr.

# Ein hymagwedd tuag at ddeallusrwydd artiffisial yn ein sectorau

Mae deallusrwydd artiffisial (AI) yn parhau i ddatblygu'n gyflym, ac rydym eisoes yn gweld y datblygiad mawr nesaf mewn galluoedd sy'n rhan o'r cyswllt â defnyddwyr, sef deallusrwydd artiffisial asiantol. Bydd Ofcom yn hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y DU drwy ddeall y datblygiadau hyn a sut y byddant yn effeithio ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Er enghraifft, byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith rydym eisoes wedi'i wneud ym maes Diogelwch Ar-lein, fel ein papurau ar Ymarferion Tîm Coch, Ffugiadau Dwfn a Chwilio â Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol; yn ystyried effaith deallusrwydd artiffisial ar ddiogelwch, gwydnwch, twyll a thaith cwsmeriaid telegyfathrebiadau; ac yn ystyried pa alluogwyr polisi y gallai fod eu hangen i gefnogi'r sector cyfryngau i fanteisio ar y cyfleoedd y gallai deallusrwydd artiffisial eu cynnig. Byddwn hefyd yn ystyried pa atebion polisi a allai fod yn angenrheidiol i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd ar gyfer cynulleidfaoedd, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, darparwyr newyddion a'r sector cyfryngau yn ei gyfanrwydd.

Mae gan Ofcom rôl i'w chwarae hefyd o ran cefnogi arloesedd deallusrwydd artiffisial yn ein sectorau, drwy gefnogi'r diwydiant i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn fwy hyderus, yn ddiogel, ac mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd i sbarduno arloesedd yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio.

Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth ar ei chynlluniau i gefnogi cyfleoedd deallusrwydd artiffisial yn y DU, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol, partneriaid ar y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) a'n cymheiriaid rhyngwladol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi diweddariad pellach ar sut rydym yn rheoleiddio deallusrwydd artiffisial lle mae'n cael ei ddefnyddio yn ein sectorau y flwyddyn nesaf.

# 3. Cefnogi ein Cenhadaeth

## Gwledydd

3.1 Ledled y DU, mae gan gymunedau anghenion penodol sy'n cael eu siapio gan ddaearyddiaeth, diwylliant, a blaenoriaethau polisi lleol. Mae'r adran hon yn nodi sut y byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr i gyflawni ein cyfrifoldebau mewn ffyrdd sy'n seiliedig ar y cyd-destun lleol. O hyrwyddo cyfryngau sy'n adlewyrchu hunaniaethau cenedlaethol i wella cysylltedd gwledig a diogelu defnyddwyr agored i niwed, mae ein gwaith yn y gwledydd yn rhan ganolog o sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

3.2 Mae ein pwyllgorau cynghori, y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, a'n Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda'r llywodraethau datganoledig i gyd yn chwarae rhan hollbwysig wrth siapio'r gwaith hwn. Mae gan bob gwlad ei blaenoriaethau ei hun, ac mae gennym dimau ymroddedig sy'n cydweithio â phartneriaid lleol i sicrhau bod y blaenoriaethau hynny'n cael eu hadlewyrchu yn ein dull gweithredu.

### Yr Alban

3.3 O ran telegyfathrebiadau, gan mai yn yr Alban y mae rhai o rannau mwyaf anghysbell y DU, byddwn yn parhau i helpu i ddarparu cysylltedd gwydn i'r ardaloedd anghysbell hyn. Byddwn hefyd yn parhau i ddwyn pobl at ei gilydd yn y maes hwn, gan gynnull trafodaethau rhwng diwydiant, academyddion, a Llywodraeth yr Alban er mwyn gweithio ynghyd i lenwi'r bylchau cysylltedd sy'n weddill. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn yr Alban ar y cysylltedd symudol, yn enwedig ynghylch sbarduno gwelliannau lle na fydd y farchnad, o bosibl, yn darparu canlyniadau da yn rhwydd. Rhan hanfodol arall o'n gwaith fydd mwy o bwyslais ar wydnwch rhwydweithiau yng nghyd-destun yr Alban, gan gynnwys gwydnwch pŵer y rhwydwaith mynediad radio symudol.

3.4 Ym maes post, byddwn yn gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid yn yr Alban fel rhan o Adolygiad Ofcom o Brisiau a Fforddiadwyedd y Gwasanaeth Post.

3.5 Yn sectorau'r cyfryngau, ar ôl yr Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus ym mis Gorffennaf, byddwn yn mynd i'r afael â'i argymhellion yng nghyd-destun yr Alban. Yn benodol, byddwn yn canolbwyntio ar ba mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau trydydd parti a'r adolygiad o reoleiddio darlledu. Byddwn hefyd yn parhau i chwarae rhan weithredol wrth roi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith, a'r goblygiadau i'r sector yn yr Alban. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, byddwn yn monitro datblygiadau gyda phroses Siarter y BBC a'r effaith ar BBC Scotland ac MG ALBA.

3.6 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban, y gymdeithas ddinesig, ac academyddion ledled yr Alban i wella diogelwch ar-lein, gan sicrhau bod pobl ledled yr Alban yn cael eu cefnogi i fyw bywydau mwy diogel ar-lein. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ynghylch ein dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gan gynnwys Red Chair Highland yn Inverness fel rhan o'n rhaglen Untold Stories.

3.7 Yn olaf, cyn etholiadau Senedd yr Alban ym mis Mai 2026, byddwn yn cyflawni ein cylch gwaith fel y mae'n berthnasol i safonau darlledu ac yn cefnogi pobl yn yr Alban i lywio

amgylcheddau ar-lein yn ystod y cylch etholiadol drwy ein gwaith ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Ar ôl yr etholiad, byddwn yn gweithio gyda'r Senedd etholedig, Gweinidogion y Llywodraeth a'u swyddogion i ddeall eu blaenoriaethau, eu safbwyntiau a'u barn.

## Cymru

3.8 Yn unol â'n rhwymedigaethau o ran y Gymraeg, byddwn yn parhau i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac yn sicrhau bod ein Hasesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau cadarn, lle bo hynny'n briodol.

3.9 O ran telegyfathrebiadau, byddwn yn dod â rhanddeiliaid at ei gilydd drwy gydol y flwyddyn i drafod sut gellir mynd i'r afael â gofynion cysylltedd a seilwaith Cymru. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r defnydd o dechnolegau a seilwaith newydd yng Nghymru, gan gynnwys annog defnyddio dulliau arloesol i fynd i'r afael â rhwystrau i gysylltedd.

3.10 Er mwyn gwella diogelwch ar-lein, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, y gymdeithas ddinesig, a grwpiau sy'n eiriol dros ddefnyddwyr yng Nghymru. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ynghylch ein dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac yn cefnogi prosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar lefel leol i helpu pobl i lywio drwy gynnwys yn ddiogel, yn enwedig wrth i'r etholiadau agosáu.

3.11 Byddwn yn sicrhau bod y sector darlledu, y sector creadigol, a sectorau cysylltiedig eraill yng Nghymru yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth inni roi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, gan weithio i sicrhau canlyniadau da i gynulleidfaoedd yng Nghymru, gyda chynnwys Cymraeg yn rhan o hynny.

3.12 Ar ôl yr etholiad, byddwn yn gweithio gyda'r Senedd etholedig, Gweinidogion y Llywodraeth a'u swyddogion i ddeall eu blaenoriaethau, eu safbwyntiau a'u barn. Byddwn yn rhoi tystiolaeth a chyngor fel y bo'n briodol i helpu i sicrhau bod gwaith Ofcom yng Nghymru yn cael ei ddeall.

3.13 Yn olaf, byddwn yn cefnogi ein timau safonau darlledu a diogelwch ar-lein i gyflawni eu dyletswyddau yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026.

## Gogledd Iwerddon

3.14 Gan weithio ar draws cylch gwaith llawn Ofcom ac adlewyrchu gofynion ac ysbryd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, byddwn yn datblygu ein cysylltiadau ymhellach ar bob lefel o Lywodraeth yng Ngogledd Iwerddon, gan sicrhau bod gan gynrychiolwyr etholedig a swyddogion wybodaeth dda a'u bod yn ymwneud â pholisïau sy'n sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i ddinasyddion a defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon.

3.15 Er mwyn helpu pobl i fyw bywyd mwy diogel ar-lein, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth ddatganoledig a'r gymdeithas ddinesig yng Ngogledd Iwerddon, gan roi cymorth ac arbenigedd i ymdrechion lleol i wella diogelwch ar-lein. Yn gysylltiedig â hyn, byddwn yn parhau i weithio gyda grwpiau fel Scamwise NI i helpu i fynd i'r afael â thwyll ar-lein, a'r Grŵp Llywio Cymorth Digidol. Byddwn hefyd yn sefydlu prosiectau Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau ar lefel leol i helpu plant ac oedolion i ddatblygu eu meddwl beirniadol a'u dinasyddiaeth ddigidol.

3.16 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â thrwyddedeion lleol a'r sector darlledu ehangach i sicrhau eu mewnbwn wrth i ni barhau i roi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith a bwrw ymlaen ag argymhellion yr Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus a fydd yn cefnogi darparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a sut mae rhanbarthau'n cael eu cynrychioli a'u portreadu yn y dyfodol. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon.

3.17 O ran telegyfathrebiadau, byddwn yn cynrychioli Ofcom ar y Tasglu Chwalu Rhwystrau ar gyfer technolegau symudol, sy'n cael ei arwain gan y Llywodraeth, ac ar Fforwm Rhanddeiliaid Telegyfathrebiadau Gogledd Iwerddon. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i ddarparu mewnbwn a chyngor rheoleiddiol ar faterion fel Prosiect Gigadid. Yn olaf, byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth ar gynlluniau a phrosesau gwydnwch a diogelwch, o ystyried effaith ddifrifol Storm Éowyn ddechrau 2025.

3.18 Ym maes gwasanaethau post, byddwn yn gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid yng Ngogledd Iwerddon fel rhan o Adolygiad Ofcom o Brisiau a Fforddiadwyedd y Gwasanaeth Post.

3.19 Byddwn yn parhau i gydweithio â'n cymheiriaid rheoleiddio yng Ngweriniaeth Iwerddon, ComReg a Coimisiún na Meán, ac yn darparu canllawiau i Lywodraeth y DU a chyrff defnyddwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pobl a busnesau yng Ngogledd Iwerddon yn parhau i elwa o wasanaethau ar draws y ffin.

### Lloegr

3.20 Byddwn yn parhau i ystyried anghenion cyfathrebu defnyddwyr ledled Lloegr. Bydd Pwyllgor Cynghori Lloegr yn llywio penderfyniadau polisi Ofcom drwy nodi materion sy'n effeithio ar y sectorau cyfathrebiadau ym mhob rhan o'r wlad.

3.21 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth, ASau lleol, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth lawn o'r materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr ledled Lloegr. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod rhanddeiliaid yn Lloegr yn cael cyfle i gyfrannu at yr holl ymgyngoriadau neu alwadau am dystiolaeth perthnasol.

3.22 Wrth i'r Llywodraeth barhau i ddatganoli mwy o gyfrifoldebau i arweinwyr rhanbarthol – gyda rhagor o etholiadau maerol yn Lloegr ym mis Mai 2026 – byddwn yn cefnogi cydweithwyr ym maes safonau darlledu i gyflawni eu dyletswyddau.

3.23 Byddwn yn parhau i sicrhau bod Ofcom yn recriwtio i swyddi ledled Lloegr, gan gynnwys ein swyddfeydd y tu allan i Lundain ym Manceinion, Birmingham, Warrington a Baldock.

## Partneriaethau

3.24 Mae natur ein gwaith yn gofyn fwyfwy i ni weithio gydag ystod eang o bartneriaid, yn y DU ac yn fyd-eang. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu ein partneriaethau domestig a rhyngwladol sy'n helpu i roi sail i'n gwaith.

### Partneriaethau domestig

- **Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF).** Rydym yn cydweithio â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), Swyddfa'r Comisiynydd

Gwybodaeth (ICO), a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i sicrhau bod gennym ddull cydgysylltiedig o reoleiddio materion a gwasanaethau digidol. Mae aelodau'r Fforwm yn gwylio'r gorwel ac yn edrych ar gyfleoedd a risgiau yn y dyfodol gyda'i gilydd. Bydd y Fforwm yn cyhoeddi ei gynllun gwaith ar gyfer 2026/27 ym mis Ebrill.

- **Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN).** Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill y DU i fynd i'r afael â heriau ar draws gwahanol sectorau, i rannu arferion gorau ac i sbarduno newid cadarnhaol fel aelod o'r Rhwydwaith. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i lywio a chyfrannu at ddadleuon polisi, adolygiadau rheoleiddio a materion traws-sector. Byddwn yn parhau i gyfrannu at waith ar y cyd â'r Rhwydwaith i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed.
- **Ymgysylltu â'r gymuned academaidd i helpu i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth.** Rydym yn parhau i feithrin perthynas ag ymchwilwyr academaidd i sicrhau bod gwaith Ofcom yn elwa yn sgil yr wybodaeth ddiweddaraf o ymchwil academaidd, grwpiau arbenigol a sefydliadau cymdeithas sifil. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ein gwaith yn rheoleiddio sectorau'r cyfryngau a diogelwch ar-lein yn ogystal â'n gwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, er mwyn cryfhau ein dealltwriaeth o brofiad defnyddwyr, eu hymddygiad, a thechnolegau newydd. Rydym yn disgwyl i'n gwaith gydag academyddion a'r diwydiant gynyddu dros y flwyddyn nesaf wrth i ni wneud ymdrechion cynyddol i ddeall effaith technolegau newydd ar ein gwaith (yn enwedig deallusrwydd artiffisial).
- **Parhau i weithio â'n cyd-reoleiddiwr, yr Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA).** Byddwn yn parhau â'n trefniadau cydreoleiddio ar gyfer teledu, radio, gwasanaethau rhaglenni ar-alw a bwyd a diod llai iach i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu rhag cynnwys hysbysebu niweidiol.
- **Panel Cynghori a Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.** Ar hyn o bryd mae gan ein Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau 480 o aelodau sy'n cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau yn y DU ac yn rhyngwladol, ac maent yn cydweithio i wella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y DU. Mae ein Panel Cynghori yn llywio gwaith Ofcom er mwyn helpu i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar-lein oedolion a phlant y Deyrnas Unedig.
- **Gorfodi'r gyfraith a'r gymuned wybodaeth.** Rydym yn cynnal cysylltiadau dwyochrog cryf gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith - gan gynnwys yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA), Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC), yr Heddlu Metropolitanaidd, Heddlu Dinas Llundain, Heddlu'r Alban a Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon. Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi ein cyfrifoldebau o ran diogelwch ar-lein, diogelwch telegyfathrebiadau, a sbectrwm. Ar gyfer ein gwaith seilwaith a chysylltedd, rydym hefyd yn gweithio gyda Phencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU (GCHQ), y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC), a'r NCA.
- **Defnyddwyr sbectrwm sector cyhoeddus y DU.** Rydym yn gweithio'n agos gyda defnyddwyr sbectrwm yn y sector cyhoeddus i gyflawni ein canlyniadau strategol. Mae hyn yn cynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn, yr Awdurdod Hedfan Sifil ac Asiantaeth Ofod y DU.
- **Catapwlt Digidol UKRI.** Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ar ein gwaith labordai SONIC, a gyda chonsortia academaidd UKRI i lywio ein gwaith ar Hybiau Telegyfathrebiadau Ffederal o'r radd flaenaf.
- **Cynaliadwyedd a newid hinsawdd.** Nid oes gennym rwymedigaethau statudol i ystyried cynaliadwyedd amgylcheddol na newid hinsawdd yn ein penderfyniadau

rheoleiddio. Er hyn, rydym yn parhau i ymgysylltu â’r diwydiant telegyfathrebiadau i ddatblygu ei ddealltwriaeth o’r materion hyn, ac i gefnogi a chyfrannu at hyrwyddo amcanion cynaliadwyedd.

## Partneriaethau rhyngwladol

- O ran **diogelwch ar-lein**, byddwn yn parhau i ddatblygu ein cysylltiadau rhyngwladol, gan gyfnewid arferion gorau a phrofiad, a gweithio tuag at ddatblygu cyfundrefnau rheoleiddio cydnaws. Bydd yr ymdrech hon yn cael ei sianelu'n benodol drwy'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang (GOSRN), sef yr unig fforwm rhyngwladol pwrpasol ar gyfer rheoleiddwyr diogelwch ar-lein. Ofcom sy’n cadeirio’r fforwm ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn defnyddio ein partneriaethau dwyochrog â rheoleiddwyr diogelwch ar-lein cyfatebol allweddol, fel Comisiynydd eDdiogelwch Awstralia, Comisiún na Meán Iwerddon, IMDA Singapore, a'r Comisiwn Ewropeaidd i helpu i sicrhau gwell canlyniadau diogelwch i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n cael eu darparu fwyfwy gan gwmnïau digidol byd-eang. Yn olaf, byddwn yn parhau i gyfrannu at brosesau rhanbarthol a rhyngwladol sy'n ceisio datblygu normau a safonau ar gyfer diogelwch ar-lein a diogelu defnyddwyr, gan gynnwys yng Nghyngor Ewrop, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), a'r Undeb Telegyfathrebu Rhyngwladol (ITU).
- O ran **darlledu a'r cyfryngau**, byddwn yn parhau i gymryd rhan yn y dadleuon byd-eang ar gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, uniondeb gwybodaeth a heriau cyffredin a wynebir gan gymdeithasau ac awdurdodau rheoleiddio ledled y byd. I'r perwyl hwn, byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhwydweithiau fel Llwyfan Ewropeaidd Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA), lle mae gennym rôl ar y Bwrdd, ac mewn rhwydweithiau gan gynnwys y Tasglu Ewropeaidd ar Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau a Gwybodaeth a Chynghrair Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau a Gwybodaeth UNESCO. Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith gyda sefydliadau fel Cyngor Ewrop a'r Sefydliad ar gyfer Diogelwch a Chydweithredu yn Ewrop i gydweithio â rheoleiddwyr darlledu a chyfryngau eraill, academyddion a chymdeithas sifil ar lefel ryngwladol i helpu i hyrwyddo ecosystem wybodaeth wydn.
- O ran **telegyfathrebiadau**, byddwn yn parhau i fonitro sut gallai technolegau sy'n dod i'r amlwg, datblygiadau rheoleiddio a dynameg ddatblygol y farchnad effeithio ar sector telegyfathrebiadau'r DU. Mae hyn yn cynnwys bod yn effro i ddatblygiad marchnadoedd llwyfannau digidol (a threfniadau rheoleiddio fel Deddf Marchnadoedd Digidol yr UE) a'r potensial ar gyfer cyfundrefnau rheoleiddio sy'n gorgyffwrdd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chymheiriaid rhyngwladol yn ddwyochrog ac yn amlochrog, gan weithio’n amlochrog yn bennaf drwy sefydliadau fel y Grŵp Rheoleiddwyr Annibynnol (IRG) a'r OECD i ddatblygu a chyfnewid arferion gorau. Byddwn hefyd yn cymryd rhan weithredol mewn mentrau rhyngwladol eraill (e.e. ar alwadau a negeseuon testun sgam) drwy rwydweithiau fel y Rhwydwaith Gorfodi Cyfathrebiadau Digymell (UCENet) a'r Fforwm Gwrth-dwyll Rheoleiddiol Anffurfiol Byd-eang (GIRAF). Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda Menter Rhwydweithiau’r Dyfodol y DU-India (UKI-FNI).
- Ym maes **safonau technegol**, mae gennym raglen barhaus o ymgysylltu dwyochrog ac amlochrog â rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill yn fyd-eang i gyfnewid arbenigedd a diweddariadau ar ddatblygiadau yn y meysydd hyn lle ceir mwy a mwy o gyd-ddibyniaeth fyd-eang. Mae Ofcom hefyd yn cynrychioli'r DU yn yr ITU, lle rydym yn aelod etholedig o'i Gyngor llywodraethu ac yn weithgar ym mhob un o'r tri

sector (safoni, radiogyfathrebu a datblygu) ac yn chwarae rhan arweiniol yng ngrŵp rhanbarthol Ewrop (CEPT). Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cadw llygad fanwl ar drafodaethau sy’n effeithio ar ein sectorau mewn sefydliadau safoni sy’n cael eu harwain gan y diwydiant, fel Tasglu Peirianneg y Rhyngrwyd (IETF), Sefydliad Safonau Telegyfathrebiadau Ewrop (ETSI) a Phrosiect Partneriaeth y Drydedd Genhedlaeth (3GPP).

## Sicrhau gwerth am arian

3.25 Daw'r rhan fwyaf o gyllid Ofcom o ffioedd a delir i ni gan y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, i dalu am gost y gwaith rydym yn ei wneud yn eu sectorau. Bydd hyn yn cynnwys rhanddeiliaid Diogelwch Ar-lein ar gyfer 2026/27. Mae ein cap gwariant cyffredinol yn cael ei osod gan Lywodraeth y DU fel rhan o'i phroses Adolygiad o Wariant. Mae'r cap gwariant hwn yn gosod y terfyn uchaf ar gyfer ein cyllidebau blynyddol.

3.26 Dros y degawd diwethaf, mae ein ffioedd cyffredinol wedi aros yn gyson i raddau helaeth o ran arian, sy’n golygu bod cost go iawn ein gwaith rheoleiddio wedi gostwng yn sylweddol mewn termau real. Rydym wedi parhau i flaenoriaethu gwerth am arian a dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd yn ein holl weithgareddau a gweithrediadau. Ac eithrio pan ydym wedi cael cyllid ychwanegol ar gyfer dyletswyddau newydd, mae Ofcom wedi cynnal cyllidebau gwastad ers 2015/16, gyda dim ond un cynnydd ar sail chwyddiant yn 2020/21.

3.27 Rydym hefyd wedi gweithio i leihau costau gweinyddol rheoleiddio i'r diwydiant. Er enghraifft, fe wnaethom ddatblygu Gwasanaeth Cymorth Digidol pwrpasol sy'n darparu canllawiau rhyngweithiol i helpu sefydliadau i ddeall a gweithredu'r rheolau Diogelwch Ar-lein. Mae hyn yn helpu i leihau'r baich ar fusnesau drwy arwain defnyddwyr drwy’r gofynion perthnasol, gan gynnwys ein hasesiadau risg. Aeth ein gwiriwr rheoliadau yn fyw ym mis Chwefror 2024, ac erbyn 1 Rhagfyr 2024 roedd wedi cael ei ddefnyddio dros 12,000 o weithiau. Mae'n adnodd cyflym a hawdd sy'n dangos a yw busnesau o fewn cwmpas y dyletswyddau. Rydym hefyd wedi symud sawl math o gynnyrch sydd â thrwydded sbectrwm i lwyfan ar-lein, gan gyflymu ceisiadau trwyddedu a gwella profiad defnyddwyr.

3.28 Rydym yn blaenoriaethu defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon, gan ddefnyddio cynllunio strategol a dull integredig o gyllidebu a rhagamcanu. Mae unrhyw fuddsoddiadau'n cael eu rheoli'n gaeth i sicrhau bod ein hadnoddau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Pan fyddwn yn caffael gwasanaethau ychwanegol, rydym yn defnyddio proses gystadleuol er mwyn sicrhau’r pris a'r ansawdd gorau posibl. Rydym yn ceisio awtomeiddio prosesau lle bo hynny'n bosibl a manteisio ar ein seilwaith presennol wrth i'n dyletswyddau gynyddu. Rydym yn parhau i gynyddu ein presenoldeb y tu allan i Lundain a cheisio gwneud y defnydd gorau posibl o'n hystad, gan arwain at fwy o arbedion effeithlonrwydd.

# A1. Yr hyn rydym yn ei wneud

A1.1 Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol a deddfwriaeth arall. Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, darlledu radio a theledu, gwasanaethau fideo ar-alw, y post, y sbectrwm radio y mae dyfeisiau di-wifr yn ei ddefnyddio, a diogelwch ar-lein.

A1.2 Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar lywodraethau a buddiannau masnachol er mwyn cyflawni ein dyletswyddau. Fodd bynnag, rydym yn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig ac er mwyn cyflawni ein rôl yn effeithiol mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Rydym yn rhoi cyngor technegol i lywodraethau ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y DU (mewn negodiadau rhyngwladol ar sbectrwm, er enghraifft).

## Ein dyletswyddau

A1.3 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y "Ddeddf") yn nodi dyletswyddau craidd Ofcom a'i bwerau a'i swyddogaethau cyffredinol. Mae'r Ddeddf yn datgan mai ein prif ddyletswydd o ran cyflawni ein swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau, a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.

A1.4 O ran sbectrwm, ein prif ddyletswydd yw sicrhau bod y sbectrwm radio yn cael ei ddefnyddio hyd yr eithaf.[2]

A1.5 O ran gwasanaethau post, mae gennym ddyletswydd i gyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu darparu gwasanaeth post cyffredinol yn y DU.[3]

A1.6 Mae swyddogaethau penodol Ofcom ar draws y gwahanol sectorau rydym yn eu rheoleiddio wedi'u nodi mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. Er enghraifft, mae rheoleiddio telegyfathrebiadau wedi'i gynnwys yn y Ddeddf. Mae Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 yn nodi swyddogaethau sbectrwm Ofcom. Mae Deddf Gwasanaethau Post 2011 yn nodi swyddogaethau post Ofcom. Mae swyddogaethau darlledu Ofcom wedi'u nodi yn y Ddeddf, Deddfau Darlledu 1990 ac 1996 a Deddf Cyfryngau 2024.

A1.7 Ofcom yw'r awdurdod cymwys dynodedig ar gyfer yr is-sector seilwaith digidol o dan Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018. Mae gan Ofcom gyfrifoldebau hefyd o dan y drefn reoleiddio a sefydlwyd gan Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021, sy'n gosod dyletswyddau diogelwch a gwydnwch cryfach ar ddarparwyr telegyfathrebiadau.

A1.8 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Ofcom wedi ymgymryd â rôl rheoleiddiwr diogelwch ar-lein o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 ac ers 1 Chwefror 2025 mae Ofcom yn rheoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm o dan Orchymyn Rheoleiddio Gwasanaethau Cyfradd Premiwm 2024.

A1.9 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac

[2] Adran 3(2)(a) o'r Ddeddf ac adran 3 o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006.

[3] Adran 29(1) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

wedi’u targedu at yr achosion hynny lle mae angen cymryd camau yn unig, yn ogystal ag unrhyw egwyddorion eraill sy’n ymddangos i ni fel rhai sy’n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.[4]

A1.10 Wrth arfer llawer o’n swyddogaethau rheoleiddiol, mae ein dyletswyddau[5] yn cynnwys ystyried pa mor ddymunol yw hybu twf economaidd. Cyfeirir at y ddyletswydd hon fel y “ddyletswydd twf” ac mae’n cyd-fynd yn benodol â’n dyletswyddau i ystyried pa mor ddymunol yw: hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd perthnasol; annog buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol; ac annog argaeledd a defnydd gwasanaethau trosglwyddo data cyflymder uchel ledled y DU.

A1.11 Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau’n ymwneud â diogelu defnyddwyr, cyfathrebiadau, a chystadleuaeth; mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr atodiad hwn.

## Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n llywio cyfeiriad ein gwaith

A1.12 Mae ein prif ddyletswyddau cyfreithiol wrth gyflawni ein gwaith yn cynnwys, ymhlith eraill, sicrhau:

- bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebiadau electronig;
- bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU;
- bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o safon yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, ac yn apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- bod y BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiaeth â safonau cynnwys priodol, ei berfformiad o ran ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol;
- bod lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol yn cael ei gynnal;

A1.13 bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd heb gyfiawnhad ar y radio a'r teledu;

- bod digon o amddiffyniad i ddinasyddion rhag niwed a achosir gan gynnwys ar-lein ar wasanaethau a reoleiddir, drwy sicrhau bod darparwyr gwasanaethau o’r fath yn gwneud defnydd priodol o systemau a phrosesau sydd wedi eu dylunio i leihau’r risg o niwed o’r fath; ac
- y gwneir y defnydd gorau posibl o’r sbectrwm radio.

A1.14 Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo’r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol ynghylch gwasanaethau post na thelegyfathrebiadau, yn wahanol i’w bwerau gyda theledu a radio. Pan fo’n briodol, rydym yn rhoi cyngor i'r rhai

[4] Adran 3(3) o’r Ddeddf.
[5] Mae’r ddyletswydd twf o dan adran 108(1) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn berthnasol i sut mae Ofcom yn gweithredu ei swyddogaethau rheoleiddio (fel y’u diffinnir yn adran 111), ond mae hyn yn amodol ar eithriadau penodol.

sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at y dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) rydym wedi'u cymeradwyo.

## Pwerau Ofcom o dan gyfraith cystadleuaeth

A1.15 Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau i wneud y pethau canlynol:

- gorfodi'r gwaharddiadau ar gytundebau gwrth-gystadleuol a chamddefnyddio safle goruchafol, a nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998;
- ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd; ac
- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 44A o Ddeddf Menter 2002 mewn perthynas ag uno cyfryngau.

A1.16 Byddwn yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau Deddf Cystadleuaeth 1998 neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar y gofynion deddfwriaethol penodol.

# A2. Atodiad Prosiectau

A2.1 Mae ein Hatodiad Prosiectau yn amlinellu ein cynlluniau i rannu ymgyngoriadau, cyhoeddiadau a chyngor ar gyfer y diwydiant, busnesau a defnyddwyr. Rydym wedi cynnwys cerrig milltir ar gyfer ymchwil, ystadegau a chyhoeddiadau data. Rydym yn casglu, dadansoddi a chyhoeddi gwybodaeth mewn ffordd gyson ar draws sectorau. Gallwch ddilyn y ddolen i'n gwefan i weld y data rydym yn ei gasglu a'i ddarparu i'r cyhoedd, lle bynnag y bo modd.

## Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Rhoi'r Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau (TAR) ar waith.** Yn 2026/27, byddwn yn monitro'r broses weithredu ac yn penderfynu ar fanylion ein gwaith rheoleiddio i gefnogi'r broses o roi'r gorau i ddefnyddio copr. Byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ar gynigion manylach y fframwaith rheoleiddio rhoi'r gorau i ddefnyddio copr ym mis Mawrth 2026 (ochr yn ochr â Datganiad Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026). Byddwn yn cyhoeddi penderfyniad yn ystod hydref 2026. | Datganiad Ch3[6] 2026/27 |
| **Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau yn ardal Hull.** Bydd y fframwaith rheoleiddio ar wahân presennol a osodwyd gennym yn 2021 yn dod i ben ym mis Hydref 2026. Bydd ein hadolygiad yn cwmpasu'r marchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog yn ardal Hull. Ym mis Hydref 2026 byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad ar y fframwaith rheoleiddio newydd a fydd yn berthnasol yn ardal Hull ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2026 a mis Hydref 2031. | Datganiad Ch3 2026/27 |
| **Rhaglen Goruchwylio Cystadleuaeth.** Goruchwylio cystadleuaeth ar draws y farchnad telegyfathrebiadau, gan gynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau yr ydym yn eu pennu yn ein hadolygiadau o'r farchnad. Byddwn yn monitro cydymffurfiaeth Openreach â'r rheolau a'r gofynion a osodwyd gennym yn Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026, gan gynnwys mewn perthynas â mynediad at seilwaith ffisegol a chynigion masnachol, gan sicrhau bod cystadleuaeth yn digwydd yn deg. Bydd y rhaglen hefyd yn goruchwylio'r agweddau sy'n ymwneud â chystadleuaeth wrth roi'r gorau i ddefnyddio copr a chau hen gyfnewidfeydd. | Parhaus |

[6] Defnyddir chwarteri ariannol drwy gydol y Cynllun Gwaith

| | |
|---|---|
| **Cysylltedd symudol.** Byddwn yn datblygu ein rhaglen waith i hyrwyddo gwelliannau mewn cysylltedd symudol. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau pellach i **Mapio Eich Ffôn Symudol**, i helpu cwsmeriaid i ddewis y rhwydwaith gorau ar eu cyfer nhw. Ar ben hynny, rydym yn bwriadu gweithio gyda'r Llywodraeth, awdurdodau lleol a'r diwydiant i helpu i wella cysylltedd symudol mewn ardaloedd lle na fydd y farchnad yn sicrhau canlyniadau da yn rhwydd. | Parhaus |
| **Diogelwch Seilwaith Telegyfathrebiadau a Seilwaith Digidol.** Byddwn yn datblygu ac yn hyrwyddo rhoi safonau gwydnwch gweithredol a thechnegol profedig ar waith yn gyson, a fydd yn cynnwys diweddaru ein Canllawiau Gweithdrefnol Telegyfathrebiadau. O ran gwydnwch pŵer, byddwn yn parhau i weithio gyda gweithredwyr symudol, cynrychiolwyr o'r Llywodraeth a'r sector ynni, i benderfynu a oes angen mesurau ychwanegol ar gyfer y rhwydwaith mynediad radio symudol. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth ac yn paratoi ar gyfer dyletswyddau newydd y disgwyliwn eu cael os bydd y Bil Seiberddiogelwch a Seiberwydnwch yn cael ei basio, gan ymestyn rôl Ofcom o dan y Rheoliadau Rhwydweithiau a Systemau Gwybodaeth i gynnwys canolfannau data. | Parhaus |
| **Goruchwylio Diogelwch a Gwydnwch.** Rydym yn gwella ein dull goruchwylio i sicrhau bod rhwydweithiau'n ddiogel ac yn wydn. Bydd hyn yn cynnwys parhau i fonitro cydymffurfiaeth darparwyr cyfathrebiadau â'r dyletswyddau diogelwch a nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a chyfrannu at Lab Telegyfathrebiadau y DU (UKTL), a byddwn yn cyflwyno ein trydydd adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Ch3 2026/27. | Parhaus |
| **Mynd i'r afael â galwadau a negeseuon testun sgam.** Yn ystod haf 2026, byddwn yn cyhoeddi datganiad ar fynd i'r afael â negeseuon symudol sgam. Ar ôl i'r Swyddfa Gartref gyhoeddi'r diweddariad o'i strategaeth dwyll ddiwedd 2025, byddwn hefyd yn ystyried sut i adnewyddu ein dull o fynd i'r afael â thwyll a sgamiau ar draws yr holl wasanaethau rydym yn eu rheoleiddio. | Ymgynghoriad Ch2 2026/27 |
| **Cysylltu'r Gwledydd.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiadau Cysylltu'r Gwledydd blynyddol ar gyfer y DU a phob un o wledydd y DU yn Ch3 2026/27. Cyn hynny, byddwn hefyd yn cynhyrchu diweddariad canol blwyddyn ac adroddiad Cyflwyno Rhwydwaith Arfaethedig sy'n edrych tua'r dyfodol. Rydym hefyd yn bwriadu adolygu ein ffordd o adrodd ar Gysylltu'r Gwledydd i sicrhau ei bod yn dal yn addas i'r diben a pharhau i ddiweddaru ein prosesau ar gyfer cael gafael ar ddata, ei gyhoeddi a sicrhau ei fod ar gael lle bo hynny'n briodol. | Cyhoeddi Ch3 2026/27 |
| **Rhaglen Goruchwylio Defnyddwyr.** Rydym yn gwella ein rhaglen goruchwylio defnyddwyr fel y gallwn barhau i sicrhau bod ein hymyriadau a'n mentrau gwirfoddol i ddiogelu defnyddwyr yn cael eu darparu'n briodol. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr, gan gynnwys defnyddwyr agored i niwed, a bydd yn ystyried materion fel tariffau cymdeithasol a Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ceisio | Parhaus |

| | |
|---|---|
| cynyddu ein gwybodaeth a'n gwaith o fonitro'r sector yn ogystal â'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid er mwyn nodi a mynd i'r afael â materion polisi yn well.<br><br>Byddwn hefyd yn adolygu effaith y newidiadau ar ein rheolau sy'n mynnu bod darparwyr yn nodi unrhyw gynnydd mewn prisiau o fewn contractau ymlaen llaw mewn punnoedd a cheiniogau, ac addasrwydd y rheolau ar addasiadau i gontractau.<br><br>Byddwn yn parhau i fonitro a yw cwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus yn cael eu trin yn deg gan ddarparwyr, gan gynnwys monitro dangosyddion fforddiadwyedd ar gyfer gwasanaethau cyfathrebiadau. Byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar argaeledd tariffau cymdeithasol a ffigurau defnydd fel rhan o'n hadroddiad blynyddol ar dueddiadau prisio. | |
| **Deall effaith deallusrwydd artiffisial ym maes telegyfathrebiadau ar ddefnyddwyr:** Yng ngaeaf 2025 byddwn yn cyhoeddi gwahoddiad i gyfrannu ynghylch yr effaith y gallai deallusrwydd artiffisial ei chael ar brofiad cwsmeriaid band eang preswyl a busnes, symudol a theledu drwy dalu. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn yn 2026/27, gan gynnwys cyhoeddiad pellach a fydd yn amlinellu unrhyw gamau nesaf ar gyfer ein gwaith yn y maes hwn. | Parhaus |
| **Symud oddi wrth hen wasanaethau.** Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr cyfathrebiadau, Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid perthnasol eraill i sicrhau bod y materion sy'n codi yn sgil mudo i linellau tir digidol, gan gynnwys y broses o ddiffodd PSTN, yn cael eu nodi ac yn cael sylw gyda'r nod o ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ac amharu cyn lleied â phosibl arnynt. | Parhaus |
| **Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang.** Mae gan bob cartref a busnes yn y DU hawl gyfreithiol i ofyn am gysylltiad band eang teilwng a fforddiadwy. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r darparwyr dynodedig (BT a KCOM) yn cyflawni'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer band eang ac yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch y dull gweithredu ar gyfer y rhwymedigaeth hon yn y dyfodol. | Parhaus |
| **Monitro Niwtraliaeth y Rhyngrwyd.** Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein gwaith o fonitro'r rheoliadau rhyngrwyd agored. Bydd hyn yn cynnwys diweddariad ar ansawdd cyffredinol band eang ym mhrofiad defnyddwyr, yn ogystal ag unrhyw broblemau o ran cydymffurfio â'r rheolau gan ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd. | Parhaus |
| **Fforddiadwyedd a phrisiau gwasanaethau post y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO).** Byddwn yn cwblhau adolygiad o'n dull gweithredu o ran fforddiadwyedd a phrisiau gwasanaethau post, cyn i'r cap diogelu presennol ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ddod i | Datganiad Ch3 2026/27 |

| | |
|---|---|
| ben ym mis Mawrth 2027. Ein nod yw cyhoeddi ymgynghoriad ym mis Mawrth 2026 a chyhoeddi ein penderfyniad yn Ch3 2026/27. | |
| **Rhaglen goruchwylio'r post.** Byddwn yn parhau i asesu'r canlyniadau i ddefnyddwyr a busnesau yn y marchnadoedd llythyrau a pharseli. Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi yn ein hadroddiad blynyddol monitro’r post. Bydd hyn yn cynnwys cynnydd o ran diwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, ochr yn ochr â'n gwaith monitro manylach ar berfformiad ariannol ac effeithlonrwydd y Post Brenhinol. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro ansawdd y gwasanaeth yn ofalus, a hefyd y mesurau i wella'r ffordd yr ymdrinnir â chŵynion a'r ffordd y caiff cwsmeriaid anabl eu trin yn y farchnad barseli. | Cyhoeddi Ch3 2026/27 |

## Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Rhan 1a o’r Ddeddf Cyfryngau: Diwygio darlledu gwasanaeth cyhoeddus.** Bydd y drefn newydd wedi dod i rym a byddwn yn ein blwyddyn gyntaf o reoleiddio o dan y fframwaith wedi'i ddiweddaru, gan gynnwys adolygu Datganiadau Polisi Rhaglenni Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus a chydymffurfio â'r drefn gwotâu wedi'i diweddaru ar gyfer eu rhaglenni. | Parhaus<br><br>Adroddiad Cydymffurfio Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus Ch2 2026/27 |
| **Rhan 1b o’r Ddeddf Cyfryngau: Digwyddiadau Rhestredig.** Rydym yn disgwyl i'r drefn digwyddiadau rhestredig wedi'i diweddaru ddod i rym yn ystod 2026, ac ar ôl hynny byddwn yn dechrau cael ceisiadau am gydsyniad o dan y drefn honno fel y cafodd ei diweddaru. | Disgwyl dechrau yn 2026 |
| **Rhan 2 o’r Ddeddf Cyfryngau: Argaeledd ac Amlygrwydd.** Mae'n rhaid i ni benderfynu pa wasanaethau ar-alw darlledu gwasanaeth cyhoeddus sydd o fewn cwmpas y drefn newydd. Ar gyfer ceisiadau a ddaw i law ddechrau 2026, ein nod yw cyhoeddi ein penderfyniadau dynodi terfynol mewn datganiad yn Ch1 2026/27. | Datganiad Ch1 2026/27 |
| **Rhan 2 o’r Ddeddf Cyfryngau: Argaeledd ac Amlygrwydd, a hygyrchedd.** Yn dilyn ymgynghoriad yn Ch3 2025/26, byddwn yn cyhoeddi ein datganiad ar y Cod Ymarfer terfynol ar gyfer sut gall llwyfannau teledu cysylltiedig gydymffurfio â gofynion amlygrwydd a hygyrchedd. Byddwn hefyd yn cyhoeddi Canllawiau terfynol ar gytundebau masnachol rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau sy'n cael eu rheoleiddio. | Datganiad Ch2 2026/27<br><br>Canllawiau Ch2 2026/27 |
| **Rhan 4 o’r Ddeddf Cyfryngau: Rheoleiddio Fideo Ar-alw.** Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn cyflwyno rheoleiddio ychwanegol 'Haen 1' ar gyfer rhai gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS), gan gynnwys gwasanaethau o’r tu allan i'r DU, o dan god safonau ar-alw newydd. | Ymgynghoriad Ch2/Ch3 2026/27 |

| | |
|---|---|
| Bydd gwasanaethau Haen 1 hefyd yn destun rhwymedigaethau hygyrchedd o dan god hygyrchedd newydd. Byddwn yn ymgynghori ar y ddau god yn 2026, gan ddilyn rheoliadau'r Llywodraeth sy'n pennu pa wasanaethau sy'n wasanaethau Haen 1. | |
| **Rhan 5 o'r Ddeddf Cyfryngau: Rheoleiddio radio.** Byddwn yn cyhoeddi ein datganiadau yn Ch4 2025/26 a fydd yn arwain at amrywiadau i drwyddedau gorsafoedd radio masnachol analog lleol a rhai trwyddedau amlblecs. | Amrywio trwyddedau Ch2 a Ch3 2026/27 |
| **Rhan 6 o'r Ddeddf Cyfryngau: Gwasanaethau Dethol Radio (cynorthwywyr llais).** Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn cyflwyno trefn newydd i sicrhau bod ffrydiau ar-lein gwasanaethau darlledu radio yn dal ar gael drwy ddyfeisiau sy'n cael eu hysgogi gan lais. Yn dilyn argymhellion gan Ofcom, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dynodi pa wasanaethau dethol radio y bydd y drefn yn berthnasol iddynt. Byddwn yn ymgynghori ar God Ymarfer drafft gan amlinellu sut gall gwasanaethau dethol radio dynodedig gyflawni eu dyletswyddau newydd. | Ymgynghoriad Ch1 2026/27<br><br>Datganiad Ch4 2026/27 |
| **Sicrhau cydymffurfiaeth â'r fframwaith rheoleiddio wedi'i ddiweddaru.** Wrth i'r broses o roi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith fynd rhagddi, byddwn yn sicrhau cydymffurfiaeth ac yn cymryd camau gorfodi lle bo angen. Ar gyfer meysydd lle mae'r gweithredu wedi'i gwblhau, byddwn yn monitro sut mae gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y fframweithiau wedi'u diweddaru. Wrth i gyfundrefnau newydd ddod i rym, byddwn yn ymestyn y gwaith monitro i gynnwys gwasanaethau sydd newydd ddechrau cael eu rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys y drefn Amlygrwydd ac Argaeledd newydd, lle mae gennym bwerau i ddatrys anghydfodau rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau teledu cysylltiedig sy'n cael eu rheoleiddio. | Parhaus |
| **Newyddion, gan gynnwys pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau trydydd parti.** Byddwn yn ystyried sut gall rheoleiddio fod yn sail i newyddion dibynadwy a chywir i bob cynulleidfa wrth i'r modd y mae pobl yn cael gafael arno symud ar-lein. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn comisiynu ymchwil sy'n datgelu gwybodaeth newydd am sut mae cynulleidfaoedd yn darganfod ac yn ymgysylltu â newyddion a chynnwys i blant ar-lein gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Bydd hyn yn helpu i daflu goleuni ar sut y gellir gweld a dod o hyd i'r cynnwys hwn yn haws ar lwyfannau fel YouTube, sy'n un o brif argymhellion yr Adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. | Ch4 2026/27 |
| **Adolygu'r Rheoleiddio ar Ddarlledu.** Cafodd y rhan fwyaf o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol ei ddylunio ar gyfer byd llinol. Byddwn yn cynnal adolygiad sylfaenol i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu, bod y rheoleiddio'n hyblyg i ymateb i newidiadau yn y farchnad a'i fod yn annog twf ac arloesedd. | Rhaglen waith a map ffordd<br><br>Ch1 2026/27 |

| | |
|---|---|
| **Monitro perfformiad a chystadleuaeth y BBC.** Byddwn yn sicrhau bod y BBC yn parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ledled y DU. Byddwn yn gwneud hyn drwy ein gwaith i fonitro ei berfformiad, ei effaith ar gystadleuaeth a'i gydymffurfiaeth â safonau cynnwys. | Parhaus<br>Adolygiad Blynyddol y BBC Ch3 2026/27 |
| **Adolygu Siarter y BBC.** Mae Siarter bresennol y BBC yn rhedeg tan ddiwedd 2027. Mae'r Llywodraeth wedi dweud y bydd yn lansio adolygiad o Siarter y BBC cyn adeg ei hadnewyddu a bydd yn edrych ar amrywiaeth o faterion i wneud yn siŵr bod y BBC wir yn cynrychioli pob person yn y DU ac yn cyflawni ar eu cyfer, gan gynnwys edrych ar wasanaethau'r BBC a'u dosbarthiad. Byddwn yn cefnogi'r adolygiad hwn ac yn rhoi mewnbwn fel y bo'n briodol yn ystod 2026/27. | Parhaus |
| **Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau C4C.** Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb blynyddol i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau Corfforaeth Channel 4, gan asesu sut mae'n cyflawni ei ddyletswyddau cyfryngau. Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd o foderneiddio ein dull o ymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau Corfforaeth Channel 4 er mwyn ystyried fframwaith newydd y Ddeddf Cyfryngau. | Ymateb Ch2 2026/27 |
| **Gosod a Gorfodi Safonau Cynnwys.** Byddwn yn parhau i osod a gorfodi cydymffurfiaeth â'n rheolau safonau cynnwys ar gyfer gwasanaethau teledu, radio ac ar-alw, gan helpu i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu rhag cynnwys niweidiol, fel cynnwys sy'n debygol o gymell troseddu ac iaith casineb heb gyd-destun. Byddwn hefyd yn parhau i sicrhau didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion a didueddrwydd dyladwy mewn materion cyfoes. Mae'r gwaith polisi parhaus ym maes safonau yn cynnwys prosiect ymchwil ansoddol i ddiweddaru ein dealltwriaeth o agweddau cynulleidfaoedd at gynnwys sy'n ymwneud â hawliadau 'iechyd ac ariannol' mewn rhaglenni, ymchwil ar gynnwys niweidiol sy'n gwneud hawliadau am iechyd a chyfoeth, a gwaith parhaus ar bolisi hysbysebu. | Parhaus |
| **Trwyddedau Darlledu.** Byddwn yn parhau i gyhoeddi, rheoli a chynnal trwyddedau ar gyfer yr holl wasanaethau teledu masnachol lleol a chenedlaethol, gwasanaethau radio masnachol digidol a gwasanaethau radio cymunedol digidol a gwasanaethau radio analog cyfyngedig. Byddwn yn cyhoeddi trwyddedau radio yn unol â'n Datganiad ar flaenoriaethau trwyddedu radio y tu hwnt i'r bwriad i gyflwyno'r rhaglen DAB ar Raddfa Fach. Byddwn yn ymateb i geisiadau gan randdeiliaid i wneud newidiadau i'w trwyddedau lle bo hynny'n briodol. | Parhaus |
| **Monitro hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS).** Byddwn yn parhau i fonitro hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS) ac yn ceisio cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ochr yn ochr ag adrodd ar ddata hygyrchedd darlledu. | Adroddiad Ch1 2026/27 |
| **Monitro ac adrodd ar amrywiaeth mewn darlledu.** Ochr yn ochr ag ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, byddwn yn parhau i gasglu data | Adroddiad Ch3 2026/27 |

| | |
|---|---|
| blynyddol ar gyfer ein hadroddiad ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. | |
| **Cyfryngau'r Genedl.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar dueddiadau allweddol yn y sector teledu, fideo, radio a sain, sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig. | Adroddiad Ch2 2026/27 |

## Rydym yn byw bywyd mwy diogel ar-lein

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Mesurau Diogelwch Ychwanegol.** Ym mis Mehefin 2025 fe wnaethom lansio ymgynghoriad ar set wedi'i thargedu o fesurau diogelwch ychwanegol sydd wedi'u dylunio i wneud gwasanaethau ar-lein yn fwy diogel, gan adeiladu ar ein Codau ar Niwed Anghyfreithlon ac Amddiffyn Plant. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau i atal cynnwys anghyfreithlon rhag mynd yn feirol, mynd i'r afael â niwed yn y man lle mae'n tarddu, ac ychwanegu mwy o amddiffyniadau i blant mewn perthynas â ffrydio byw. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a byddwn yn cyhoeddi datganiad ar ôl i'r rhain gael eu hadolygu. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ddiweddariadau i adlewyrchu newidiadau i droseddau blaenoriaeth (pan fyddant yn dod yn gyfraith). | Datganiad<br>Ch3 2026/27 |
| **Ffioedd y diwydiant.** Disgwylir i'r drefn ffioedd fod yn gwbl weithredol, gydag anfonebau ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 yn cael eu cyhoeddi yn sgil hysbysiadau'r darparwyr i Ofcom yn gynharach yn y flwyddyn. | Ymgynghoriad Adennill Ch1 2026/27<br>Datganiad Adennill Ch3 2026/2027 |
| **Dyletswyddau ar wasanaethau wedi'u categoreiddio.** Cafwyd her gyfreithiol i is-ddeddfwriaeth y Llywodraeth sy'n pennu'r trothwyon o ran pa wasanaethau sy'n cael eu categoreiddio o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Daeth yr her hon i ben ym mis Awst 2025. Byddwn yn awr yn cynnal proses sylwadau ddechrau 2026, a fydd yn rhoi cyfle i'r gwasanaethau rydym ni'n credu eu bod yn bodloni'r amodau trothwy roi sylwadau ar ein penderfyniadau amodol cyn i ni baratoi fersiwn derfynol y gofrestr.<br><br>Gan ddibynnu ar ganlyniad y broses hon, rydym yn bwriadu cyhoeddi cofrestr gategoreiddio ac ymgynghori ar y dyletswyddau ychwanegol sy'n berthnasol i wasanaethau wedi'u categoreiddio tua Ch2 2026. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cwmpasu dyletswyddau sy'n ymwneud â hysbysebu twyllodrus, telerau gwasanaeth, grymuso defnyddwyr, dilysu ID, cynnwys cyhoeddwyr newyddion, cynnwys newyddiadurol, a chynnwys sydd o bwysigrwydd democrataidd. | Cyhoeddi cofrestr categoreiddio Ch2 2026/27 |

| | |
|---|---|
| Byddwn yn cyhoeddi ein datganiadau polisi terfynol erbyn canol 2027. Lle bo modd, byddwn yn cyflwyno datganiadau terfynol cyn y prif becyn er mwyn cadw pethau i fynd. | |
| **Hysbysiadau tryloywder llwyfannau.** Fe wnaethom gyhoeddi’r canllawiau terfynol ar adrodd am dryloywder ym mis Gorffennaf 2025. Ar ôl i ni gyhoeddi'r gofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio, byddwn yn cyhoeddi hysbysiadau i wasanaethau wedi'u categoreiddio o fewn ychydig wythnosau, gan fynnu eu bod yn cyhoeddi adroddiadau tryloywder.<br><br>Ein nod yw bod yr adroddiadau hyn yn rhoi golwg ystyrlon ar fesurau diogelwch ac yn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus. Bydd yn ofynnol i’r holl wasanaethau sydd wedi’u categoreiddio gyhoeddi eu hadroddiadau cyntaf erbyn haf 2027. Byddwn wedyn yn dechrau cyhoeddi ein hadroddiadau tryloywder ein hunain i grynhoi’r casgliadau sy'n cael eu cywain o adroddiadau’r llwyfannau o 2028 ymlaen. | Cyhoeddi adroddiadau tryloywder<br>Ch2 2027/28 |
| **Hysbysiadau Technoleg.** Mae gan Ofcom bŵer, pan fyddwn yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur, i wneud i ddarparwr ddefnyddio technoleg benodol i fynd i’r afael â chynnwys sy’n ymwneud â therfysgaeth a/neu gynnwys sy’n ymwneud â chamfanteisio’n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol. Ar gyfer cynnwys sy’n ymwneud â chamfanteisio’n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol, mae hyn yn ymestyn i gyfathrebiadau preifat. Byddem yn gwneud hyn drwy gyhoeddi Hysbysiad Technoleg.<br><br>Bydd angen i unrhyw dechnoleg rydym yn mynnu bod darparwr yn ei defnyddio gael ei hachredu, naill ai gan Ofcom neu gan drydydd parti a benodir gennym ni, yn erbyn safonau cywirdeb gofynnol wrth ganfod cynnwys sy’n ymwneud â chamfanteisio’n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol a chynnwys sy’n ymwneud â therfysgaeth. Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn mynnu bod Ofcom yn rhoi cyngor i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ar safonau gofynnol o'r fath, y byddwn yn eu cyhoeddi erbyn mis Ebrill 2026. Rydym hefyd yn disgwyl cyhoeddi ein canllawiau terfynol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar arfer ein swyddogaethau Hysbysiad Technoleg ar yr un pryd â’n cyngor i’r Ysgrifennydd Gwladol. | Cyhoeddi cyngor a chanllawiau terfynol<br>Ch1 2026/27 |
| **Sicrwydd oedran effeithiol iawn.** Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, byddwn yn cyhoeddi adroddiad erbyn diwedd mis Gorffennaf 2026 yn asesu sut mae gwasanaethau wedi defnyddio sicrwydd oedran a pha mor effeithiol y mae wedi bod. | Cyhoeddi Ch2 2026/27 |

| | |
|---|---|
| **Cynnwys sy'n niweidiol i blant.** Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, byddwn yn adolygu ac yn adrodd ar amlder a difrifoldeb cynnwys sy'n niweidiol i blant ac yn cyhoeddi ein canfyddiadau ym mis Hydref 2026. Bydd hyn yn cynnwys cyngor ynghylch a ydym yn credu bod newidiadau i gynnwys prif flaenoriaeth a chynnwys â blaenoriaeth yn briodol. | Cyhoeddi Ch3 2026/27 |
| **Defnydd plant o siopau apiau.** Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar ddefnydd plant o siopau apiau erbyn mis Ionawr 2027. Bydd hyn yn asesu sut mae siopau apiau yn cyfrannu at blant yn gweld cynnwys niweidiol ac yn gwerthuso defnydd siopau apiau o fesurau sicrwydd oedran a pha mor effeithiol ydynt. Bydd hyn yn helpu'r Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu a ddylid cynnwys darparwyr siopau apiau yng nghwmpas y Ddeddf. Fe wnaethom gyhoeddi Galwad am Dystiolaeth ar y pwnc hwn yn ddiweddar. | Cyhoeddi Ch4 2026/27 |
| **Pwyllgor Gwybodaeth Diogelwch Ar-lein.** Sefydlwyd y Pwyllgor Cynghori ar Wybodaeth Ar-lein ym mis Mai 2025 a bydd yn parhau i roi cyngor i ni ar y materion a nodir yn Adran 152(4) o'r Ddeddf, sy'n amlinellu cylch gwaith y Pwyllgor. Bydd yn cyhoeddi ei adroddiad cyntaf erbyn 1 Tachwedd 2026 fan bellaf. Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu cyhoeddi gwybodaeth am brosiectau unigol y mae'n eu cynnal. | Ch3 2026/27 |
| **Ein Gwlad Ar-lein.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ynghylch beth mae pobl yn ei wneud ar-lein, eu hagweddau tuag at ddefnyddio'r rhyngrwyd a'u profiadau o hynny. | Adroddiad<br>Ch3 2026/27 |
| **Diogelwch menywod a merched ar-lein.** Byddwn yn annog gwasanaethau mawr a gwasanaethau wedi'u targedu i barhau i flaenoriaethu diogelwch menywod a merched ar-lein drwy roi arferion gorau ar waith, cyflawni dyletswyddau cyfreithiol cysylltiedig mewn perthynas â chynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant, ac ymrwymo'n gyhoeddus i ganllawiau. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad i dynnu sylw at yr hyn y mae gwasanaethau'n ei wneud – neu ddim yn ei wneud – i greu bywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched, gyda'r bwriad o sbarduno camau pellach lle bo angen. Bydd gennym alwad am dystiolaeth i lywio'r gwaith o adrodd ar gynnydd yn Ch3 2026/27. | Galawd am dystiolaeth<br>Ch3 2026/27 |

## Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Diwallu'r galw datblygol am sbectrwm ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â'r gofod.** Byddwn yn parhau i adolygu a diweddaru ein fframwaith awdurdodi i ddiwallu'r galw cynyddol am sbectrwm ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â'r gofod. Bydd hyn yn cynnwys penderfyniadau ar sbectrwm band Ka a Ku ychwanegol ar gyfer band | Datganiad ar fynediad awyrenegol a morol i fandiau Ku/Ka<br>Ch3 2026/27 |

| | |
|---|---|
| eang lloeren awyrenegol a morol a'n dull gweithredu yn y dyfodol ar gyfer awdurdodi yn y band MSS 2 GHz. Ar ben hynny, byddwn yn adolygu ein dull o awdurdodi terfynellau MSS ac yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar flaenoriaethau strategol ar gyfer y dyfodol. | Datganiad ar ddull awdurdodi yn y dyfodol ar gyfer MSS 2 GHz – Ch4 2026/27 |
| **Diwallu'r galw datblygol am sbectrwm ar gyfer band eang.** Rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad yn amlinellu ein penderfyniadau i ddarparu bloc uchaf y band 1.4 GHz ar gyfer gwasanaethau symudol cyn diwedd blwyddyn ariannol 2025/26, gyda'r bwriad o ddyfarnu'r sbectrwm hwn yn 2026/27. Ar ôl yr arwerthiant, byddwn yn dechrau gweithio ar osod Ffi Trwydded Flynyddol ar gyfer bloc canol y band 1.4 GHz, sydd wedi'i drwyddedu i VMO2 a VodafoneThree ar hyn o bryd. Ar wahân, byddwn yn archwilio a allai rhannu sbectrwm wella cysylltedd lle mae'n anodd ei ddarparu, mewn rhai lleoliadau gwledig er enghraifft. Byddwn hefyd yn edrych ar fanteision posibl cyflwyno dull cyson o ddad-ddarnio daliadau mewn bandiau sbectrwm symudol yn y dyfodol. | Dyfarnu 1492-1517 MHz – H2 2026/27 |
| **Diwallu'r galw datblygol am sbectrwm o dan 1 GHz.** Byddwn yn cychwyn adolygiad traws-sector sawl blwyddyn o hyd o'r defnydd presennol a'r galw yn y dyfodol am sbectrwm o dan 1 GHz, gan gynnwys Teledu Daearol Digidol (DTT), gwasanaethau symudol, cyfleustodau a seilwaith cenedlaethol hollbwysig arall, gan ganolbwyntio i ddechrau ar wneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE). Bydd canlyniadau'r adolygiad yn sail i archwilio'r cyfleoedd i ddefnyddio'r sbectrwm gwerthfawr hwn yn fwy effeithlon. Bydd yr adolygiad hefyd yn llywio ystyriaethau polisi sy'n ymwneud â rhaglen waith Dyfodol Teledu (y cyfeirir ati isod). | Papur Trafod<br>Ch2 2026/27 |
| **Gwneud mwy o ddefnydd effeithlon o sbectrwm.** Byddwn yn parhau â'n gwaith i sbarduno defnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon, gan gynnwys drwy rannu sbectrwm. Byddwn yn ceisio galluogi rhagor o arloesi mewn rhwydweithiau symudol a Wi-Fi, drwy wella mynediad at y band 6 GHz. Mae hyn yn cynnwys symud ymlaen â'n gwaith mewn perthynas â Wi-Fi pŵer uwch yn yr awyr agored drwy Reoli Amledd Awtomatig (AFC); ehangu mynediad ar gyfer Wi-Fi pŵer isel dan do; a gwasanaethau symudol. Byddwn yn parhau i ystyried gwelliannau pellach i fynediad band, megis ar gyfer defnydd Realiti Estynedig (XR) a Phŵer Isel Iawn (VLP). Ar wahân i hyn, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn a defnyddwyr sbectrwm eraill yn y sector cyhoeddus i ganfod cyfleoedd i ddefnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon. | Y camau nesaf ar alluogi dyfeisiau symudol yn rhan uchaf y band 6 GHz a'r rhai sydd eisoes yno<br>Ch1 2026/27<br><br>Galluogi AFC yn L6 a Chamau pellach tuag at Wi-Fi yn U6<br>Ch2 2026/27<br><br>Penderfyniad ar y goblygiadau i'r rhai sydd eisoes yn U6<br>Ch3 2026/27 |
| **Datblygu'r model ymledu.** Byddwn yn parhau â'n gwaith ar ymledu, gan gynnwys cadeirio ITU SG3 i sicrhau bod y modelau rydym yn eu | Parhaus |

| | |
|---|---|
| defnyddio yn gyfredol ac yn rhoi rhagfynegiadau sydd â'r cywirdeb sydd ei angen i gefnogi gwasanaethau yn y dyfodol a defnyddio sbectrwm yn effeithlon | |
| **Trwyddedu, Sicrwydd, Cydymffurfiaeth.** Byddwn yn parhau i gryfhau a datblygu'r modd y mae gwaith Trwyddedu, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth Sbectrwm yn cael ei gyflawni'n weithredol, gan gefnogi rhanddeiliaid drwy brosesau effeithlon, monitro gwell a chanolbwyntio ar alluogi defnyddio sbectrwm yn effeithiol. Bydd y gweithgareddau gweithredol yn sicrhau bod y sbectrwm yn parhau i fod yn addas i'r diben drwy nodi risgiau ac addasu i ofynion technolegol sy'n datblygu. | Parhaus |
| **Ymgysylltu rhyngwladol - WRC-27.** Yn unol â chyfarwyddyd gan y llywodraeth, byddwn yn cynnal arweinyddiaeth Ofcom i sicrhau bod buddiannau'r DU yn cael eu hystyried yn briodol mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm, gan gynnwys yn y CEPT a'r ITU. Byddwn yn cyfrannu'n weithredol at ddatblygu adroddiadau, argymhellion a phenderfyniadau rhyngwladol, gan fynd i'r afael â rheoli a chysoni sbectrwm, ac yn arwain paratoadau'r DU ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu nesaf y Byd (WRC) a fydd yn cael ei chynnal ddiwedd 2027. Mae Ofcom yn disgwyl cyhoeddi Galwad am Fewnbwn ar ddatblygu safbwyntiau'r DU ar gyfer WRC-27 yn Ch2 2026/27. | Galwad am Fewnbwn i lywio'r safbwyntiau ar gyfer WRC-27<br><br>Ch2 2026/7 |
| **Adolygu a gwella ein fframweithiau awdurdodi;** gan gynnwys uwchraddio systemau a'u symleiddio lle bo hynny'n briodol gan ganolbwyntio ar y sectorau awyrenegol a morol. Byddwn yn ymgynghori ar ein dull trwyddedu presennol ar gyfer Gorsafoedd Daear Awyrenegol, gyda chynigion i drosglwyddo ein gwasanaethau trwyddedu i lwyfan ar-lein i wella hygyrchedd ac effeithlonrwydd, gan gynnwys drwy symleiddio ein trwyddedau ac adolygu ein dull o ymdrin â ffioedd. | Ymgynghoriad ar Orsafoedd Tir Awyrenegol Ch2 2026/27<br><br>Datganiad Ch4 2026/27<br><br>Datganiad ar drwyddedu Morol Ch2 2026/27 |
| **Cyflwyno cynnyrch newydd ar gyfer arloesi a thwf.** Byddwn yn datblygu ein fframweithiau awdurdodi sbectrwm er mwyn gallu mabwysiadu technolegau arloesol. Bydd hyn yn cynnwys gwaith i ganfod amleddau ychwanegol ar gyfer rheoli dronau ac ar gyfer nodweddion diogelwch ychwanegol ar ddronau, yn ogystal â galluogi defnyddio technolegau newydd i reoli'r risgiau diogelwch cynyddol a achosir yn sgil defnyddio dronau yn elyniaethus neu'n faleisus. | Cyhoeddi – Ch2 2026/27 |
| **Rhwymedigaethau darpariaeth y Rhwydwaith Gwledig a Rennir.** Byddwn yn gwneud gwaith paratoi i gefnogi ein hasesiad o gydymffurfiaeth gweithredwyr rhwydweithiau symudol â rhwymedigaethau darpariaeth y Rhwydwaith Gwledig a Rennir sy'n ddyledus ar 31 Ionawr 2027. | Asesiad cydymffurfiaeth yn Ch4 2026/27 |

## Prosiectau trawsbynciol

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi gwerthusiad canol tymor o strategaeth tair blynedd Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM) yn 2026. Bydd y gwerthusiad hwn yn sail i'n gwaith cynllunio ar gyfer y strategaeth tair blynedd nesaf.<br><br>Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol o Sut i Hybu Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau: Datganiad o Argymhellion. Nod y datganiad, y buom yn ymgynghori arno yn Ch3 2025/26, yw helpu llwyfannau ar-lein, darlledwyr a gwasanaethau eraill i rymuso'r cyhoedd gyda'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu'n feirniadol ac yn ddiogel â'r cynnwys y maent yn ei weld. | Cyhoeddi Ch1/2 2026/27 |
| **Adrodd ar ymwybyddiaeth oedolion o'r cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau ar sail ein harolwg tracio ymwybyddiaeth oedolion o'r cyfryngau ar ei newydd wedd, a'n hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywydau Oedolion, gan roi manylion canfyddiadau ymchwil hydredol, ethnograffig ar raddfa fach. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ymchwil i feysydd eraill sy'n cyd-fynd â'n gwaith polisi, fel ymwneud â chymunedau ar-lein. | Adroddiad a Chyhoeddiadau Ymchwil<br><br>Ch1 2026/27 |
| **Adrodd ar ymwybyddiaeth plant o'r cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau Plant a'u Defnydd o Gyfryngau ar sail ein harolwg tracio ymwybyddiaeth plant a rhieni o'r cyfryngau ar ei newydd wedd, a'n hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywydau Plant, gan roi manylion canfyddiadau ymchwil hydredol, ethnograffig ar raddfa fach. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ymchwil i feysydd eraill sy'n cyd-fynd â'n gwaith polisi, fel profiadau plant o ddylunio perswadiol ar lwyfannau ar-lein, ac ymwneud plant â chymunedau ar-lein. | Ch1 2026/27 |
| **Rhaglen Gwylio'r Gorwel:** Rydym yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio a sut mae ein rhanddeiliaid a'n marchnadoedd yn esblygu. Ein nod yw rhag-weld datblygiadau yn y dyfodol ac effaith y tueddiadau a'r technolegau hyn sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â datblygiadau domestig a gwleidyddol posibl drwy ymgysylltu, ymchwil a dadansoddi allanol. Mae ein rhaglen gwylio'r gorwel yn rhoi mewnbwn allweddol ar gyfer ein gwaith datblygu polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n ein cefnogi i reoli risgiau strategol ar gyfer y sefydliad. | Parhaus |
| **Adroddiad ar gael gafael ar newyddion.** Byddwn yn cyhoeddi ein hymchwil flynyddol i'r ffordd mae pobl yn defnyddio gwasanaethau | Ch2 2026/7 |

| | |
|---|---|
| newyddion ar y teledu, ar y radio, mewn print ac ar-lein, a'u hagweddau tuag atynt. | |
| **Marchnadoedd digidol.** Rydym yn gweithio i gefnogi'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wrth iddo roi'r Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr ar waith, mewn perthynas â phenderfyniadau dynodi ac atebion ar gyfer llwyfannau chwilio a symudol (sy'n ofynion ymddygiad o dan y Ddeddf) i'r graddau y mae'r rhain yn effeithio ar fuddiannau polisi Ofcom. | Parhaus |
| **Dyfodol Dosbarthu Teledu.** Rydym yn cefnogi'r Llywodraeth gyda thystiolaeth, cyn y penderfyniad disgwyliedig ar ddosbarthu yn y dyfodol. Rydym hefyd yn paratoi ar gyfer unrhyw waith dilynol a allai ddod, yn dibynnu ar ganlyniad ac amseriad y penderfyniad hwnnw. | Parhaus |
| **Cyfrifo gwerth effaith Ofcom.** Mae'r rhaglen waith hon yn ymwneud â deall a chyfrifo gwerth effaith gwaith Ofcom drwy werthusiadau rheolaidd. Byddwn yn sicrhau bod ein dull o arfarnu polisi yn dilyn yr arferion gorau, gan ystyried ein canllawiau asesu effaith.<br><br>Byddwn yn parhau i asesu effaith ein gwaith drwy ein rhaglen barhaus o werthusiadau ex-post gan gynnwys: Archwiliadau manwl o'r newidiadau o ganlyniad i weithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein er mwyn deall yr effaith ar wneud profiad ar-lein yn fwy diogel; gwerthuso mesurau Sicrwydd Oedran i ddeall effaith Sicrwydd Oedran Effeithiol Iawn (HEAA) ar ymweliadau defnyddwyr â gwasanaethau oedolion yn ogystal â graddau osgoi HEAA; gwerthusiad o effaith gweithgareddau Sicrwydd a Chydymffurfiaeth Sbectrwm i'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025; a phennu hyd a lled gwerthusiadau yn y dyfodol yn Ch1 a Ch2 2026.<br><br>Yn ystod y flwyddyn hon byddwn yn dechrau gwerthuso effaith y dull punnoedd a cheiniogau o godi prisiau ar ganol contractau, sydd wedi disodli'r fformiwla sy'n gysylltiedig â chwyddiant. | Gwerthusiad Sicrwydd Oedran - Ch3 datblygu dadansoddiad o ymddygiad defnyddwyr cyn ac ar ôl cyflwyno HEAA; Ch4 cyflwyno'r dadansoddiad<br><br>Archwiliadau Manwl o Ddiogelwch Ar-lein – Ch4 cwmpasu ymgeiswyr<br><br>Sicrwydd a chydymffurfiaeth sbectrwm – Cwblhau'r dadansoddiad a'r adroddiad mewnol erbyn Ch4 2025/26<br><br>Pennu hyd a lled gwerthusiadau ex-post yn y dyfodol – Ch2 2026/27 |

# A3. Asesu Effaith

A3.1 Fel sy'n cael ei adlewyrchu yn adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, mae'n rhaid i Ofcom gynnal asesiadau effaith mewn achosion lle byddai ein casgliadau'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu lle byddai newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Yn achos y Cynllun Gwaith Blynyddol, nid ydym wedi cynnal asesiad effaith gan fod effaith pob polisi a'r holl gyhoeddiadau a rhaglenni gwaith cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun yn cael ei hasesu'n unigol fel y bo'n briodol.

A3.2 Mae rhwymedigaeth ar Ofcom i gynnal asesiadau effaith er mwyn dangos i'n rhanddeiliaid pa opsiynau a ystyriwyd wrth wneud penderfyniadau polisi a pham y cafodd yr opsiwn a ddewiswyd ei ffafrio. Rydym yn cydnabod bod y penderfyniadau rydym ni'n eu gwneud yn gallu sicrhau gwerth sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, ond eu bod hefyd yn gallu arwain at gostau sylweddol i'n rhanddeiliaid. Felly, rydym yn ystyried a yw ein hymyriadau polisi yn gymesur ac yn briodol yn ystod ein proses ymgynghori.

A3.3 Mae ein hasesiadau effaith yn ystyried sut y byddai ein cynigion yn cyd-fynd â'n dyletswyddau cyffredinol. Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 hefyd yn mynnu bod Ofcom, wrth arfer ein swyddogaethau rheoleiddio, yn ystyried pa mor ddymunol yw hybu twf economaidd, gan gynnwys drwy ystyried pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw gamau rheoleiddio rydym yn eu cymryd yn angenrheidiol ac yn gymesur o ran hybu twf economaidd. Rydym yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn drwy ystyried effeithiau economaidd ehangach ein cynigion yn ein hasesiadau effaith ochr yn ochr ag effeithiau eraill ar fusnesau.

A3.4 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn cyfeirio at grwpiau o bobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig yma fel 'grwpiau cydraddoldeb'. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A3.5 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Mae Deddf Gogledd Iwerddon 1998 ("Deddf 1998") yn mynnu bod Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A3.6 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

A3.7 Yn y Cynllun Gwaith hwn, rydym wedi nodi'r ystod eang o weithgareddau y byddwn yn ymgymryd â nhw yn y flwyddyn sydd i ddod ar draws ein cylch gwaith sydd â buddiannau

dinasyddion a defnyddwyr yn ganolog iddynt, gan gynnwys llawer o feysydd yr ydym yn disgwyl iddynt gael effaith gadarnhaol ar grwpiau cydraddoldeb. Rydym yn disgwyl y bydd ein holl waith ar wneud y gwasanaethau yr ydym yn eu rheoleiddio yn fwy hygyrch, ar gael yn ehangach, yn fwy cystadleuol ac yn fwy diogel yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.

A3.8 Drwy gydol y flwyddyn, ac ar draws ein holl waith, byddwn yn parhau i asesu ac egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, gan fabwysiadu'r dull gweithredu a nodir yn ein Canllawiau Asesu Effaith.

# A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut i ymateb

A4.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno'ch barn a'ch sylwadau am y materion a godwyd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 5 Chwefror 2026.

A4.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn https://www.ofcom.org.uk/cy/about-ofcom/annual-reports-and-plans/consultation-ofcoms-plan-of-work-202627.

A4.3 Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A4.4 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, gofynnwn ichi ei anfon dros e-bost i planofwork@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn ddilys ar ôl 5 Chwefror 2026.

A4.5 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Plan of Work team

Ofcom

Riverside House 2A Southwark Bridge Road

Llundain SE1 9HA

A4.6 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i lwytho yn syth ar YouTube (neu wefan letya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A4.7 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai bod eich ymateb yn gyfrinachol)

A4.8 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A4.9 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A4.10 Byddai'n ddefnyddiol pe bai eich ymateb yn cynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi cael eu rhestru yn Atodiad X. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai hi'n bosib i chi egluro pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A4.11 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd yn cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i planofwork@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A4.12 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A4.13 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, nodwch i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A4.14 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A4.15 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd datgelu ymlaen llaw, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb â'r adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A4.16 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau defnyddio - Ofcom.

## Y camau nesaf

A4.17 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ym mis Mawrth 2026.

A4.18 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau e-bost yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A4.19 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 5.

A4.20 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A4.21 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House

2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

1. Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

2. Byddwn yn glir ynghylch pwy rydyn ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
3. Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
4. Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosibl. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.
5. Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydyn ni'n cynnal ein hymgyngoriadau.
6. Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

7. Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A6. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

> Dim ☐
> Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
> Ymateb cyfan ☐
> Sefydliad ☐
> Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A7. Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Dywedwch wrthym sut y daethoch ar draws yr ymgynghoriad hwn.**

☐ E-bost gan Ofcom
☐ Wedi'i weld ar y cyfryngau cymdeithasol
☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan Ofcom
☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan arall
☐ Wedi clywed amdano ar y teledu neu'r radio
☐ Wedi darllen amdano mewn papur newydd neu gylchgrawn
☐ Wedi clywed amdano mewn digwyddiad
☐ Rhywun wedi dweud wrthyf amdano neu wedi'i rannu â mi
☐ Arall (rhowch fanylion)